



Rhif ymchwil cymdeithasol: 74/2026

Dyddiad cyhoeddi: 06/10/2026

Ymchwil i ddeall effaith Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar 2022 i 2025

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80853-469-0

Ymchwil i ddeall effaith Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar 2022 i 2025

Awduron: Michael Davies a Martyn Pritchard, Strategic Research & Insight Ltd.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Davies, M. a Pritchard, M. (2026). Ymchwil i ddeall effaith Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar 2022 i 2025. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 74/2026.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad hwn ar dudalennau Ystadegau ac ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru: <https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil>

Barn yr ymchwilydd ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Jack Watkins

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

ymchwil.planatheuluoedd@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad a chefnidir	7
1.1.	Nodau ac amcanion yr ymchwil hwn	8
2.	Methodoleg	9
2.1.	Arolwg ar-lein ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol	9
2.2.	Cyfweliadau ansoddol gyda swyddogion awdurdodau lleol	9
2.3.	Cyfweliadau ansoddol gyda darparwyr gofal plant a chwarae	10
2.4.	Ymchwil desg o ddata AGC	11
2.5.	Cyfyngiadau.....	11
2.5.1.	Sampl yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol	11
2.5.2.	Effaith rhai prosiectau sydd eto i'w gwireddu'n llawn	11
3.	Dadansoddi Data	12
3.1.	Cofrestrau darparwyr AGC	12
3.2.	Data SASS	13
3.3.	Newidiadau Capasiti	18
3.4.	Crynodeb o ddadansoddi data.....	19
4.	Canfyddiadau cyffredinol o'r broses ymgeisio	20
4.1.	Grantiau mawr	20
4.2.	Grantiau bach	21
5.	Rhwystrau wrth ddatblygu achosion busnes	23
5.1.	Grantiau cyfalaf mawr.....	23
5.2.	Grantiau bach	26
6.	Meini prawf pwysoli	31
6.1.	Addas i'r diben	31
7.	Nodi a dewis prosiectau	33
7.1.	Prosiectau mawr	33
7.2.	Grantiau bach	34
7.2.1.	Amrywiad yn y ffordd y mae grantiau bach yn cael eu nodi.....	34
7.2.2.	Meini prawf diwygio	34
7.2.3.	Ecwiti wrth ddosbarthu cyllid grant bach.....	35
8.	Ymwybyddiaeth o'r Rhaglen.....	36
9.	Cyflawni'r Rhaglen	38

9.1.	Heriau wrth gyflawni prosiectau mawr	38
9.1.1.	A oresgynnwyd unrhyw heriau?	40
9.2.	Heriau wrth gyflawni prosiectau grant bach	40
10.	Effaith y Rhaglen	42
10.1.	Digonolrwydd cyllid	42
10.2.	Effaith ar feysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru	43
10.2.1.	Grantiau mawr	43
10.2.2.	Grantiau bach	44
10.3.	Themâu cyffredinol ar effaith	45
10.3.1.	Cefnogwyd meysydd blaenoriaeth allweddol gan gyllid cyfalaf mawr	46
10.3.2.	Cyferbyniadau rhwng cyllid bach a chyllid mawr	47
10.3.3.	Efallai na fyddai cyfleusterau gwell wedi bod yn bosibl fel arall	47
10.3.4.	Mae'r effaith yn ymestyn y tu hwnt i adeiladau	47
10.3.5.	Cefnogi ehangu Dechrau'n Deg	48
10.3.6.	Adolygu'r effaith	49
10.3.7.	A oes yna rai darparwyr yn cael eu gorfodi?	49
11.	Gwelliant yn y dyfodol	51
11.1.	Mwy o hyblygrwydd mewn perthynas ag amserlenni ar gyfer prosiectau mawr	51
11.2.	Llywio ymholiadau	51
11.3.	Lleihau'r risg ariannol i awdurdodau lleol	52
11.4.	Gosod templed ar gyfer amrywiadau	52
11.5.	Addasu cais ar gyfer prosiectau adnewyddu aml-safle	52
11.6.	Cefnogi darparwyr llai i gael gafael ar gyllid	53
11.7.	Adolygu meini prawf ar gyfer disodli eitemau	54
11.8.	Rhannu arfer gorau a heriau	54
11.9.	Cymorth gyda refeniw	54
12.	Astudiaethau achos	56
12.1.	Profiadau cymysg gwarchodwr plant	56
12.2.	Cyllid cyfalaf mawr i gefnogi ystod o flaenoriaethau	57
12.3.	Gwella cyfleoedd chwarae drwy grantiau bach	58
12.4.	Ehangu capasiti drwy gyllid mawr	59
13.	Casgliad	61
13.1.	Meysydd i'w hystyried yn y dyfodol	62

Rhestr tablau

Tabl 1: Cyfartaledd ‘nifer y plant sydd wedi’u cofrestru i ofalu amdanynt’ a ‘nifer cyfartalog y plant ar y llyfrau’	14
Tabl 2: Cyfanswm y lleoedd ‘cyfredol’ ac ‘arfaethedig’ ar gyfer achosion cyfiawnhad busnes	18

Rhestr ffigurau

Ffigur 1: Swm Cyfartalog y Capasiti Uchaf fesul Chwarter	12
Ffigur 2: Darparwyr cofrestredig AGC yn ôl blwyddyn.....	13
Ffigur 3: Cymhariaeth Flynyddol o Blant Cofrestredig a Niferoedd ar Lyfrau (Sectorau Cyfunol).....	144
Ffigur 4: Ffigurau Blynyddol ar gyfer 'Nifer y Plant sydd wedi'u Cofrestru i Ofalu Amdanynt' fesul math o Ofal Plant.....	155
Ffigur 5: Ffigurau Blynyddol ar gyfer 'Cyfanswm Nifer y Plant ar Lyfrau' fesul math o Ofal Plant.....	16
Ffigur 6: Cyfran y gwasanaethau sy'n cynnig Dechrau'n Deg.....	17
Ffigur 7: Yn gyffredinol, sut fydddech chi'n asesu'r broses o ddrafftio a chyflwyno achosion busnes ar gyfer grantiau cyfalaf mawr? (N = 18) Hydref i Dachwedd 2025	20
Ffigur 8: A oedd unrhyw rwystrau a oedd yn ei gwneud hi'n anodd i'ch awdurdod ddatblygu achosion busnes ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr? (N = 19) Hydref i Dachwedd 2025	23
Ffigur 9: Yn eich barn chi, a oedd yna unrhyw rwystrau a oedd yn ei gwneud hi'n anodd i ddarparwyr yn eich ardal wneud cais am grantiau bach? (N = 19) Hydref i Dachwedd 2025	27
Ffigur 10: Yn eich barn chi, pa mor addas i'r diben yw'r meini prawf pwysoli presennol a ddefnyddir i asesu achosion busnes ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr? (N = 19) Hydref i Dachwedd 2025	31
Ffigur 11: Pa heriau yn benodol, os o gwbl, a wynebodd eich awdurdod wrth gyflawni prosiectau mawr? (N = 18) Hydref i Dachwedd 2025.....	388
Ffigur 12: Yn eich barn chi, pa mor ddigonol oedd lefel y cyllid cyfalaf i ddiwallu anghenion darparwyr gofal plant yn eich ardal, ar gyfer grantiau mawr a grantiau bach? (N = 19) Hydref i Dachwedd 2025.....	422
Ffigur 13: Gan feddwl am brif brosiectau cyfalaf y Rhaglen yn eich ardal chi, i ba raddau y maent wedi cyfrannu at y meysydd blaenoriaeth canlynol? (N = 18) Hydref i Dachwedd 2025	433
Ffigur 14: Gan feddwl am grantiau cyfalaf bach y Rhaglen yn eich ardal chi, i ba raddau y maent wedi cyfrannu at y meysydd blaenoriaeth canlynol? (N = 19) Hydref i Dachwedd 2025	444

Geirfa

ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol)

Yn ôl Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ADY), "mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo ef neu hi anhawster dysgu neu anabledd (p'un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol".

ACB (Achos Cyfiawnhad Busnes)

Mae Achos Cyfiawnhad Busnes yn ddogfen ffurfiol i ddangos yr angen am brosiect, amlinellu'r manteision disgwylidig, a darparu tystiolaeth bod y buddsoddiad arfaethedig yn cefnogi amcanion y Rhaglen Gyfalaf. Mae'n ofynnol er mwyn cefnogi ceisiadau am gyllid cyfalaf ar ran gwasanaethau cofrestredig AGC.

AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru)

Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r rheoleiddiwr a'r arolygiaeth annibynnol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru, sy'n gyfrifol am gofrestru, arolygu a gorfodi i sicrhau ansawdd a diogelwch.

Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant

Asesiad a wneir gan awdurdodau lleol i werthuso argaeledd a digonolrwydd darpariaeth gofal plant yn eu hardal.

Graddfa Sgorio Amgylchedd Plentyndod Cynnar

Defnyddir y Raddfa Sgorio Amgylchedd Plentyndod Cynnar i asesu ansawdd amgylcheddau dysgu plentyndod cynnar drwy werthuso ffactorau fel gofod, deunyddiau ac arferion bob dydd.

Dechrau'n Deg

Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar yw Dechrau'n Deg, a ddarperir gan awdurdodau lleol sy'n cynnig cymorth i deuluoedd â phlant pedair oed ac iau, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig, gyda'r nod o wella canlyniadau i blant a'u teuluoedd. Mae'r rhaglen yn darparu pecyn o gymorth sy'n cynnwys gofal plant rhan-amser a ariennir o safon i blant 2 oed; cymorth rhianta; cymorth gwell gan ymwelwyr ieuchy; a chymorth gwasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mynegiant o Ddiddordeb

Cam cychwynnol mewn prosesau cyllid neu ymgeisio cyn cyflwyno cais am grant yn llawn.

Yswiriant Gwladol

Mae Yswiriant Gwladol yn gyfraniad (neu dreth) a delir gan weithwyr a chyflogwyr.

PACEY Cymru (Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru)

Sefydliad cynrychiadol sy'n cefnogi darparwyr gofal plant yng Nghymru, yn enwedig gwarchodwyr plant.

SASS (Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth)

Data a gesglir gan ddarparwyr gofal plant sydd wedi'u cofrestru gydag AGC, a ddefnyddir i ddeall darpariaeth gwasanaethau, capasiti a nodweddion darpariaeth.

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Cynllun awdurdod lleol sy'n amlinellu sut fydd darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei datblygu.

1. Cyflwyniad a chefnidir

Gweithredwyd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynnyddoedd Cynnar (y Rhaglen) ym mis Hydref 2022 ac roedd yn gynllun wedi'i ariannu am dair blynedd a oedd yn rhedeg tan fis Mawrth 2025, gyda chyfanswm cyllideb o £70 miliwn. Nod y Rhaglen oedd cefnogi rhaglenni gofal plant wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru a gwella a thyfu darparwyr gofal plant a chwarae newydd a phresennol.

Rhannwyd y gyllideb yn ddwy ffrwd ariannu: cyllid grantiau bach a chyllid cyfalaf mawr. Darparwyd cyllid grant bach o £8 miliwn yn y flwyddyn gyntaf (2022-23), £10 miliwn yn yr ail flwyddyn (2023-24) a £10 miliwn arall yn y drydedd flwyddyn (2024-25), i gefnogi darparwyr gofal plant a chwarae cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Roedd y cyllid grant bach yn cael ei reoli a'i weinyddu gan yr awdurdod lleol, a rhannwyd y dyraniad yn seiliedig ar nifer y gwasanaethau gofal plant ym mhob awdurdod lleol. Gellid gwneud ceisiadau grant bach am hyd at £20,000. Fodd bynnag, addaswyd yr uchafswm a oedd ar gael ar sail pro rata yn ôl capasiti cofrestredig darparwyr cofrestredig AGC.

Darparwyd cyllideb o £10 miliwn y flwyddyn ar gyfer y prosiectau cyfalaf mawr yn y flwyddyn gyntaf, ac yna dyraniadau o £15 miliwn yr un yn ail a thrydedd flwyddyn y Rhaglen (£40 miliwn i gyd dros y tair blynedd). Gellid gwneud ceisiadau am gyllid cyfalaf mawr ar gyfer prosiectau sy'n amrywio o £20,000 i £2 filiwn. Gallai prosiectau gynnwys unrhyw beth o waith adnewyddu bach i ymestyn lleoliadau presennol neu adeiladau newydd. Roedd y cyllid ar gael ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru ag AGC, ac arweiniwyd ceisiadau am gyllid gan awdurdodau lleol, a gyflwynodd Achos Cyfiawnhad Busnes (ACB) i Lywodraeth Cymru, ar ran darparwyr.

Prif amcan y Rhaglen Gyfalaf oedd sicrhau bod y sector gofal plant yng Nghymru yn cael ei gryfhau a'i gefnogi. Cynlluniwyd y Rhaglen i flaenoriaethu buddsoddiad mewn meysydd allweddol, gan gynnwys:

- ehangu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg
- cyd-leoli gofal plant gydag ysgolion, hybiau iechyd neu gymunedol
- ehangu rhaglenni gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru (e.e. Dechrau'n Deg, Cynnig Gofal Plant, addysg gynnar a ddarperir mewn lleoliadau nas cynhelir)
- cynyddu capasiti gofal plant cofrestredig cyffredinol

Yn ogystal â'r blaenoriaethau craidd hyn, roedd y Rhaglen hefyd yn cefnogi amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion gwaith
- ehangu'r ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar yn raddol, i gynnwys pob plentyn 2 oed, gyda phwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg
- parhau i gefnogi'r rhaglen flaenllaw Dechrau'n Deg

- gwella hygyrchedd a chynhwysiant ar gyfer plant anabl a'r rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- gwella cyfleoedd chwarae i blant

Sefydlwyd Rhaglen Gyfalaf ddilynol, sy'n rhedeg rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2028.

1.1. Nodau ac amcanion yr ymchwil hwn

Nod y prosiect hwn oedd darparu dealltwriaeth o'r effaith y mae'r cyllid cyfalaf bach a mawr wedi'i chael ar ddarparwyr gofal plant a chwarae, ac ystyried i ba raddau mae amcanion y grant wedi'u cyflawni.

Dyma beth oedd amcanion yr ymchwil:

- deall a oedd y cyllid grantiau bach yn cefnogi'r sector gofal plant a chwarae, ac os felly, sut
- asesu i ba raddau mae cyllid yn cefnogi gwasanaethau i ddarparu gofal plant cyfrwng Cymraeg, darpariaeth y tu allan i'r ysgol, chwarae a gofal ar gyfer plant anabl a phlant ag ADY
- asesu'r berthynas rhwng buddsoddiad drwy'r Rhaglen Gyfalaf ac unrhyw newidiadau mewn capasiti gofal plant
- pennu a oedd y grant yn ddigon hygyrch i wasanaethau preifat a gwasanaethau cyhoeddus
- nodi'r rhwystrau a'r heriau a wynebodd gwasanaethau wrth wneud cais am gyllid cyfalaf o ddwy elfen y Rhaglen, a chael mynediad atynt
- deall ymwybyddiaeth darparwyr o'r Rhaglen Gyfalaf ac addasrwydd ei blaenoriaethau presennol a'i meini prawf cymhwysedd
- deall sut ddefnyddiwyd y Rhaglen Gyfalaf i gefnogi ehangiad parhaus y rhaglen Dechrau'n Deg
- pennu a oedd y meini prawf pwysoli yn gywir ac yn addas at y diben
- casglu barn ar ddigonolrwydd lefel y cyllid ar gyfer y ddwy ffrwd cyllid

2. Methodoleg

Rhannwyd ein dull ar draws pedair elfen:

- arolwg ar-lein ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol
- cyfweiliadau ansoddol gyda swyddogion awdurdodau lleol
- cyfweiliadau ansoddol gyda darparwyr gofal plant a chwarae
- ymchwil desg o ddata AGC a data achos cyfiawnhad busnes

Trafodwn y 4 dull hyn yn fanylach isod.

2.1. Arolwg ar-lein ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol

Datblygodd 'Strategic Research & Insight Ltd' (SRI, saesneg yn unig) yr holiadur ar gyfer yr arolwg hwn ar y cyd â Llywodraeth Cymru, a roddodd hefyd fanylion cyswllt i SRI ar gyfer swyddog arweiniol ym mhob awdurdod lleol sy'n ymwneud â'r Rhaglen Gyfalaf. E-bostiodd SRI yr arolwg yn uniongyrchol at y cysylltiadau allweddol hyn.

Roedd yr arolwg ar agor am bum wythnos. Fe'i cyhoeddwyd ar 13^{eg} Hydref 2025 ac fe'i caewyd ar 21^{ain} Tachwedd 2025. Derbyniwyd cyfanswm o 19 o ymatebion. Anfonwyd dwy neges e-bost atgoffa yn ystod y cyfnod gwaith maes, un gan SRI ac un gan Lywodraeth Cymru. Cafodd yr arolwg ei sefydlu a'i gynnal gan ddefnyddio'r meddalwedd SNAP Surveys.

O'r 19 ymateb a dderbyniwyd, nododd un nad oedd ei awdurdod wedi cyflwyno achos cyfiawnhad busnes. Cafodd yr ymatebydd hwn ei gyfeirio at rai cwestiynau yn benodol ar gyfer ymatebwyr nad oedd eu hawdurdod wedi cyflwyno achos cyfiawnhad busnes, ond gofynnwyd iddynt rai o'r un cwestiynau â'r ymatebwyr eraill hefyd.

Roedd y cwestiwn olaf yn gofyn i'r ymatebwyr a fyddent yn fodlon cymryd rhan mewn cyfweiliad ansoddol dilynol. O'r 19 ymatebydd, nododd 15 y byddent yn hapus i gymryd rhan.

2.2. Cyfweiliadau ansoddol gyda swyddogion awdurdodau lleol

Gofynnwyd i ymatebwyr a fynegodd ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn cyfweiliad dilynol ddarparu eu manylion cyswllt fel y gallai SRI gysylltu â nhw'n uniongyrchol. O'r sampl o ymatebwyr a nododd eu bod yn fodlon cymryd rhan, cysylltodd SRI â rhai am gyfweiliad, gan sicrhau cynrychiolaeth o bob rhan o Gymru (yn seiliedig ar yr awdurdod lleol). Cynhaliwyd 10 cyfweiliad ansoddol, a pharhaodd pob cyfweiliad am awr o hyd.

2.3. Cyfweiliadau ansoddol gyda darparwyr gofal plant a chwarae

Gofynnwyd am adborth gan ddarparwyr hefyd. Cynhaliodd SRI 22 o gyfweiliadau gyda darparwyr o bob cwr o Gymru a wnaeth gais am gyllid. O'r rhain, dim ond cyllid cyfalaf mawr yr oedd 3 wedi'i dderbyn, derbyniodd 5 gyllid cyfalaf mawr a grant bach (8 i gyd wedi derbyn cyllid mawr), derbyniodd 10 gyllid grant bach yn unig, ac roedd 4 wedi bod yn aflwyddiannus yn rhai o'u ceisiadau am gyllid grant bach. Ceisiwyd cyfweiliadau gyda'r ymgeiswyr 'aflwyddiannus' hyn, er mwyn deall yn well unrhyw rwystrau neu heriau a brofwyd ganddynt yn ystod y broses ymgeisio.

Rhoddodd awdurdodau lleol a gymerodd ran yn y cyfweiliadau ansoddol fanylion cyswllt ar gyfer darparwyr. Gofynnodd SRI i bob awdurdod enwebu ychydig o ddarparwyr a oedd wedi derbyn cyllid cyfalaf mawr ac ychydig a oedd wedi derbyn cyllid grant bach, a alluogodd SRI i adeiladu sampl ehangach i ddewis cyfranogwyr.

Gofynnodd SRI hefyd i awdurdodau lleol nodi unrhyw ddarparwyr a oedd wedi bod yn aflwyddiannus yn eu cais am gyllid grant bach. Fodd bynnag, ychydig o awdurdodau oedd yn gallu darparu cysylltiadau o'r fath. Er enghraifft, esboniodd rhai awdurdodau lleol fod y rhan fwyaf o geisiadau am gyllid grant bach yn eu hardal yn llwyddiannus, neu pan oedd darparwyr yn aflwyddiannus i ddechrau, roedd yr awdurdod lleol yn aml yn gweithio gyda nhw i adolygu a chryfhau eu cais (e.e. pan ystyriwyd bod y cynnig yn hyfyw ond nad oedd wedi'i gyflwyno'n glir neu'n llawn). O ganlyniad, cysylltodd SRI a Llywodraeth Cymru â sefydliadau cynrychiadol perthnasol, gan ofyn iddynt nodi darparwyr a wrthodwyd am gyllid, er mwyn casglu eu safbwyntiau. O'r sefydliadau cynrychiadol y cysylltwyd â nhw, roedd PACEY (Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynnyddoedd Cynnar) Cymru yn gallu darparu rhywfaint o sampl ar gyfer y garfan hon.

O'r 22 cyfweiliad a gynhaliwyd, roedd 3 chyfranogwr hefyd yn gweithio ar ran sefydliad ymbarél ar lefel ranbarthol ac roeddent yn gallu darparu safbwyntiau ehangach ar y Rhaglen.

O'r 8 darparwr a nodwyd i ddechrau fel rhai sydd wedi derbyn cyllid mawr gan awdurdodau lleol, ac ar gyfer y Rhaglen hon, daeth i'r amlwg yn ystod 2 o'r cyfweiliadau eu bod mewn gwirionedd wedi derbyn cyllid cyn 2022. Cadarnhaodd ymchwiliad pellach gan SRI a Llywodraeth Cymru fod y darparwyr hyn wedi cael eu hariannu dan Raglen Gyfalaf flaenorol, yn union cyn y Rhaglen bresennol, a bod eu manylion wedi'u cynnwys yn y ddogfennaeth ar gyfer y Rhaglen hon a gedwir gan Lywodraeth Cymru neu'r awdurdod lleol.

Cafodd canfyddiadau'r cyfweiliadau hyn eu cadw, gan fod y Rhaglen flaenorol yn debyg yn ei natur ac yn cyd-fynd â nodau tebyg. Fodd bynnag, mae SRI wedi trin y canfyddiadau hyn fel tystiolaeth atodol yn unig ac nid yw wedi dibynnu arnynt fel data cynradd. Mae unrhyw fewnwelediadau a dynnwyd o'r cyfweiliadau hyn wedi'u defnyddio i gefnogi neu atgyfnerthu canfyddiadau gan ddarparwyr a dderbyniodd gyllid yn ystod cyfnod cyfredol y Rhaglen.

2.4. Ymchwil desg o ddata AGC

Darparodd Llywodraeth Cymru y ffynonellau data canlynol i SRI:

- Data cofrestrau darparwyr AGC rhwng 2019 ac Awst 2025
- Data Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) AGC ar gyfer 2021, 2023 a 2024 (ni chasglwyd unrhyw ddata ar gyfer 2022)
- taenlen fonitro o'r holl brosiectau cyfalaf mawr a gymeradwywyd yn ystod y Rhaglen (2022 i 2025)

Roedd y ddwy ffynhonnell ddata gyntaf yn caniatáu i SRI holi data AGC i ddeall newidiadau yn y sector yn ystod cyfnod y Rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddi newidiadau capasiti sector cyfan rhwng 2022 i 2025 ac archwilio patrymau ar draws gwahanol fathau o ddarparwyr.

Roedd y drydedd ffynhonnell ddata yn galluogi SRI i fapio newidiadau capasiti ymhlith darparwyr a oedd wedi'u cymeradwyo ar gyfer grantiau mawr yn ystod cyfnod y Rhaglen.

2.5. Cyfyngiadau

2.5.1. Sampl yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol

Cytunodd SRI a Llywodraeth Cymru mai'r dull mwyaf hyfyr o recriwtio darparwyr oedd gofyn i awdurdodau lleol enwebu nifer fach o ddarparwyr a oedd wedi derbyn cyllid grant mawr neu fach. Roedd hyn yn galluogi SRI i gasglu sampl o ddarparwyr i'w gwahodd am gyfweiliad, gan sicrhau cynrychiolaeth ar draws gwahanol fathau o ddarparwyr a rhanbarthau Cymru.

Er bod y dull hwn yn cael ei ystyried fel y mwyaf priodol, dylid nodi bod dibynnu ar eraill i enwebu cyfranogwyr yn cyflwyno'r potensial ar gyfer rhagfarn dethol.


2.5.2. Effaith rhai prosiectau sydd eto i'w gwireddu'n llawn

Yn ystod cyfweiliadau ag awdurdodau lleol a darparwyr, archwiliwyd canfyddiadau o effaith y Rhaglen hyd yma. Fodd bynnag, pwysleisiodd rhai awdurdodau lleol a derbynwyr grantiau mawr mai dim ond yn y blynyddoedd i ddod y bydd yr effaith llawn yn amlwg ar gyfer rhai prosiectau, yn enwedig datblygiadau cyfalaf mwy. Er enghraifft, gall darparwyr newydd gymryd amser i gyrraedd capasiti gweithredol llawn.

3. Dadansoddi Data

3.1. Cofrestrau darparwyr AGC

Ffigwr 1: Swm Cyfartalog y Capasiti Uchaf fesul Chwarter




Disgrifiad o Ffigwr 1: Plotiau siart pum llinell, pob un â llinell duedd, sy'n dangos cyfanswm capasiti cyfartalog (nifer y lleoedd) y sector gofal plant wedi'i ddadansoddi yn ôl chwarter o Ch1 2019 i Ch3 2025, wedi'i gymryd o ddata cofrestrau darparwyr AGC.

Crëwyd y siart hon drwy gyfuno ffigurau 'uchafswm capasiti' ar draws darparwyr polisi gofal plant a chwarae, ar gyfer y cyfnod 2019 i 2025. Cafodd cofrestrïadau 'wedi'u canslo', 'segur' ac 'wedi'u hatal' eu heithrio o'r canlyniadau. Crynhowyd y data a oedd yn weddill yn ôl chwarter a blwyddyn, a chymerwyd cyfartaledd ar gyfer pob chwarter i ddarparu pwyntiau data cyfatebol. Ni ddarparwyd unrhyw ddata ar gyfer ail chwarter 2019 na phedwerydd chwarter 2023. Cyflwynir data ar gyfer gofal dydd llawn, gofal y tu allan i'r ysgol, gwarchodwr plant a gofal dydd sesiynol yn y drefn honno. Nid yw darparwyr eraill, fel crèches neu ddarpariaeth chwarae mynediad agored, yn cael eu dangos, gan fod eu capasiti yn fach iawn o'i gymharu â'r rhai a gyflwynir uchod.

Yn gyffredinol, mae'r duedd bresennol yn dangos gostyngiad yn y capasiti uchaf ar draws y sector gofal plant, gan ddechrau ar uchafswm capasiti cyfartalog o tua 79,500 ac yn gostwng i oddeutu 72,500 dros y cyfnod 7 mlynedd. Mae gofal y tu allan i'r ysgol, gwarchodwr plant a darparwyr gofal dydd sesiynol yn dangos tuedd debyg o ostyngiad mewn capasiti. I'r gwrthwyneb, mae darparwyr gofal dydd llawn wedi gweld cynnydd yn eu capasiti uchaf dros yr un cyfnod.

Ffigur 2: Darparwyr cofrestredig AGC yn ôl blwyddyn



Disgrifiad o Ffigur 2: Siart golofn sy'n dangos cyfanswm nifer y darparwyr gofal plant cofrestredig AGC bob blwyddyn rhwng 2019 a 2025. Mae'r siart yn tynnu sylw at ostyngiad yn nifer y darparwyr cofrestredig dros y cyfnod hwn, o 3,624 yn 2019 i 2,826 yn 2025.


Ochr yn ochr â'r gostyngiad mewn capasiti ar draws y sector a nodwyd yn gynharach, mae yna ostyngiad cyson hefyd yn nifer y darparwyr cofrestredig dros y cyfnod hwn, gan ostwng o 3,624 yn 2019 i 2,826 yn 2025.

Yn yr un modd â'r siart gynharach, eithrwyd cofrestriadau 'wedi'u canslo', 'segur' ac 'wedi'u heithrio'. Mae data cofrestr AGC yn cael ei gasglu yn wythnosol, felly, er cysondeb, cyfrifwyd cyfansymiau blynyddol o setiau data a gymerwyd ym mis Ionawr, a'u cymharu â setiau data eraill o'r un flwyddyn i sicrhau nad oedd unrhyw anghysondebau yn y data a ddefnyddiwyd i gynrychioli pob blwyddyn.

3.2. Data SASS

Crëwyd y siartiau bar canlynol gan ddefnyddio cronfa ddata o wybodaeth a dynnwyd o Ddatganiadau Hunanasesu Gwasanaeth (SASS). Cesglir data SASS drwy ffurflen flynyddol ac, er ei fod yn fwy manwl na chofrestr AGC, fel arfer mae'n cwmpasu tua 93–97% o wasanaethau cofrestredig yn hytrach na'r holl wasanaethau. Er mwyn ceisio adlewyrchu'r sector gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, eithriwyd y data gan ddarparwyr sy'n cynnig gofal i blant 12 oed a hŷn yn unig. Mae'r siartiau yn cynnwys 2 far y flwyddyn, un yn dangos nifer cyfunol y plant sydd wedi'u cofrestru ar gyfer gofal gyda darparwyr, a'r llall yn dangos cyfanswm nifer y lleoedd ar y llyfrau. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adran fethodoleg, ni chasglwyd data SASS ar gyfer 2022.

Ffigur 3: Cymhariaeth Flynyddol o Blant Cofrestredig a Niferoedd ar Lyfrau (Sectorau Cyfunol)



Disgrifiad o Ffigur 3: Siart bar sy'n dangos cymhariaeth o gyfanswm nifer y plant sydd wedi'u cofrestru ar gyfer gofal plant a nifer y plant ar y llyfrau, ar gyfer y blynyddoedd 2021, 2023 a 2024.


Ar y cyfan, mae yna ostyngiad bach yn nifer y plant sydd wedi'u 'cofrestru ar gyfer gofal' yn y sector yn ei gyfanrwydd (a elwir hefyd yn gapasiti cofrestredig), tra bod cynnydd mwy yn 'cyfanswm nifer y plant ar y llyfrau' dros yr un cyfnod.

Tabl 1: Cyfartaledd 'nifer y plant sydd wedi'u cofrestru i ofalu amdanynt' a 'nifer cyfartalog y plant ar y llyfrau'

Blwyddyn	Nifer Cofrestredig Cyfartalog	Nifer Cyfartalog ar y Llyfrau
2021	23.4	30.6
2023	24.7	34.7
2024	25.5	35.7

Mae nifer cyfartalog y plant 'wedi'u cofrestru i ofalu amdanynt' a'r 'nifer cyfartalog o blant ar y llyfrau' ar gyfer darparwyr gofal plant yn gyffredinol wedi cynyddu rhwng 2021 a 2024, gyda chynnydd cyfrannol uwch yn y niferoedd cyfartalog ar y llyfrau, sydd efallai yn adlewyrchu'r duedd a ddangoswyd yn gynharach gyda mwy o leoliadau gofal dydd llawn, a llai o fathau eraill o leoliadau.


Ffigur 4: Ffigurau Blynnyddol ar gyfer ‘Nifer y Plant sydd wedi’u Cofrestru i Ofalu Amdanynt’ fesul math o Ofal Plant



Disgrifiad o Ffigur 4: Siart bar sy'n dangos cyfanswm nifer y plant 'sydd wedi'u cofrestru i ofalu amdanynt' gan wahanol fathau o ddarparwyr gofal plant, ar gyfer y blynnyddoedd 2021, 2023 a 2024.

Mae darparwyr gofal dydd llawn wedi gweld cynnydd yn nifer y plant sydd 'wedi'u cofrestru i ofalu amdanynt' (capasiti cofrestredig) ers 2021. Yn ystod yr un cyfnod, mae mathau eraill o ddarparwyr gofal plant wedi gweld eu niferoedd yn gostwng. Yn yr un modd â'r gymhariaeth o ddata Cofrestrau AGC, eithriwyd crèches a darpariaeth chwarae mynediad agored o'r siart hon oherwydd maint sampl isel.


Ffigur 5: Ffigurau Blynyddol ar gyfer ‘Cyfanswm Nifer y Plant ar Lyfrau’ fesul math o Ofal Plant



Disgrifiad o Ffigur 5: Siart bar sy'n dangos cyfanswm nifer y plant ar y llyfrau ar gyfer gwahanol fathau o ddarparwyr gofal plant, ar gyfer y blynyddoedd 2021, 2023 a 2024.

Mae darparwyr gofal dydd sesiynol a gwarchodwyr plant wedi gweld nifer y plant ar eu llyfrau yn gostwng rhwng 2021 a 2024. Cafodd darparwyr gofal y tu allan i'r ysgol gynnydd bach rhwng 2021 a 2023, ond ers 2024 mae nifer y plant ar eu llyfrau hefyd yn gostwng. Mae darparwyr gofal dydd llawn wedi parhau i weld niferoedd cynyddol ar eu llyfrau ers 2021.

Ffigur 6: Cyfran y gwasanaethau sy'n cynnig Dechrau'n Deg



Disgrifiad o Ffigur 6: Cyfran y gwasanaethau sy'n cwblhau SASS a gynigiodd Dechrau'n Deg, ochr yn ochr â'r gyfran o'r capasiti cofrestredig cyffredinol a gynigiodd Dechrau'n Deg.

Er bod capasiti cyffredinol y sector wedi gostwng, bu cynnydd mewn mathau penodol o ddarpariaeth, fel lleoliadau gofal dydd llawn, fel y dangoswyd yn gynharach. Gellir gweld tuedd debyg ymhlith gwasanaethau sy'n darparu Dechrau'n Deg (o'r datganiadau SASS), a oedd yn amcan strategol allweddol y Rhaglen Grant Cyfalaf.

Cynyddodd nifer y gwasanaethau sy'n darparu Dechrau'n Deg o 477 yn 2021 i 828 yn 2024, sy'n gynydd o 74%. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd uchafswm capasiti gwasanaethau Dechrau'n Deg o 13,794 o leoedd i 26,899 o leoedd, cynnydd o 95%.

Fel y dangosir yn Ffigur 6 uchod, cynyddodd cyfran y gwasanaethau sy'n darparu Dechrau'n Deg o 16% yn 2021 i 31% yn 2024, ac fe gynyddodd eu cyfran o uchafswm capasiti o 20% i 39%.

Mae'r patrwm ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i Gymru yn wahanol. Gostyngodd nifer y gwasanaethau a gofrestrwyd i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant o 2,524 yn 2021 i 2,327 yn 2024, sy'n ostyngiad o 8%. Fodd bynnag, arhosodd uchafswm capasiti y gwasanaethau hyn bron yr un fath, yn 58,954 o leoedd yn 2021 a 58,949 o leoedd yn 2024.

Arhosodd cyfran y gwasanaethau a gofrestrwyd i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant yn sefydlog ar y cyfan, ar 84% yn 2021 ac 86% yn 2024. Roedd eu cyfran o'r uchafswm capasiti hefyd yn sefydlog ar y cyfan, yn 83% yn 2021 ac 85% yn 2024.

Awgryma hyn er bod nifer y gwasanaethau a gofrestrwyd i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant wedi gostwng, bod capasiti cyffredinol y gwasanaethau hynny wedi'u cynnal. Ar ben hynny, er bod nifer y darparwyr Cynnig Gofal Plant wedi gostwng 8%, roedd hyn yn llai na'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y darparwyr gofal plant cofrestredig AGC (16% - wedi'i gymryd o ddata AGC, fel y dangosir yn Ffigur 2).

3.3. Newidiadau Capasiti

Ym mis Hydref 2025 rhoddodd Llywodraeth Cymru gronfa ddata feistr o'r holl brosiectau mawr wedi'u hariannu i SRI, gan gwmpasu'r cyfnod tair blynedd llawn hyd at yr amserlen honno. Croesgyfeiriodd SRI y gronfa ddata hon â dogfennau achos cyfiawnhad busnes ar gyfer pob prosiect i nodi unrhyw newidiadau mewn capasiti a grëwyd yn y sector.

Mae'n bwysig nodi bod gan y dadansoddiad hwn gyfyngiadau cywirdeb. Gall gwybodaeth a gofnodwyd mewn achosion cyfiawnhad busnes gael ei diweddarau dros amser trwy ddogfennau eraill, efallai na fydd lleoedd terfynol bob amser yn gywir, ac mewn rhai achosion roedd manylion o fewn achosion cyfiawnder busnes yn aneglur.

Ar ben hynny, nid yw achosion cyfiawnhad busnes a dogfennau cysylltiedig, fel adroddiadau monitro, yn nodi math o wasanaeth y lleoliad (neu leoliad arfaethedig), h.y. p'un a yw'n Lleoliad Gofal Dydd Llawn, neu fath arall o leoliad. Fel y nodwyd mewn llawer o'r siartiau uchod, mae capasiti wedi cynyddu mewn lleoliadau Gofal Dydd Llawn, ac mae capasiti wedi gostwng ar gyfer mathau eraill o leoliadau. Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod pa effaith y mae'r Rhaglen Gyfalaf wedi'i chyfrannu at y newid hwn gan nad ydym yn gwybod y mathau o leoliadau a gefnogir gan y Rhaglen.

Serch hynny, mae'r dadansoddiad isod yn cynnig arwydd eang o sut y gallai prosiectau mawr a ariannwyd fod wedi cyfrannu at gynyddu capasiti'r sector.

Tabl 2: Cyfanswm y lleoedd 'cyfredol' ac 'arfaethedig' ar gyfer achosion cyfiawnhad busnes

	Cyfanswm
Lleoedd Cyfredol	1463
Lleoedd Arfaethedig	2382
Cyfanswm lleoedd newydd	919
Cyfrwng Cymraeg Cyfredol	391
Lleoedd Cyfrwng Cymraeg Arfaethedig	885
Cyfanswm lleoedd newydd	494
Lleoedd Dwyieithog Cyfredol	721
Lleoedd Dwyieithog Arfaethedig	823
Cyfanswm lleoedd newydd	102
Lleoedd Cyfrwng Saesneg Cyfredol	351
Lleoedd Cyfrwng Saesneg Arfaethedig	674
Cyfanswm lleoedd newydd	323

Mae'r tabl hwn yn dangos nifer cyfunol y 'leoedd cyfredol sydd ar gael' mewn lleoliadau a gynhyrchodd achos cyfiawnhad busnes (h.y. nifer y lleoedd cyn derbyn cyllid), a'r 'nifer

arfaethedig o leioedd' sydd ar gael ar ôl cwblhau unrhyw waith a ariennir. Mae hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r lleoedd cyfredol neu arfaethedig yn ôl yr iaith a fwriedir ar gyfer y lleoliad hwnnw.

Mae'r ffigurau'n dangos y rhagwelir y bydd nifer y lleoedd sydd ar gael yn gyffredinol yn cynyddu o 1,463 o leioedd i 2,382 o leioedd, cynnydd o 63% ymhlith yr achosion cyfiawnhad busnes hyn, pe bai'r holl gynlluniau yn dwyn ffrwyth. Mae'r cynnydd posibl yn nifer y lleoedd (919 o leioedd) yn gyfystyr â chyfran isel iawn o gyfanswm y lleoedd a gofnodwyd yn y sector – tua 72,500 o leioedd. Mae'r cynnydd mewn lleoedd (919) yn cynrychioli 1.3% o gyfanswm nifer y lleoedd.

Daw'r cynnydd cyfrannol mwyaf o leoliadau cyfrwng Cymraeg, o 391 o leioedd i 885 o leioedd, cynnydd o 126%. Mae lleoedd dwyieithog a Saesneg hefyd wedi rhagweld cynnydd, ond ar raddfa lai. Rhagwelwyd y byddai lleoedd dwyieithog yn cynyddu o 721 i 832, cynnydd o 13%; tra bod lleoedd cyfrwng Saesneg i fod i gynyddu o 351 o leioedd i 674 o leioedd, cynnydd o 92%.

O'r data hwn, gallwn hefyd gyfrifo canran y lleoedd arfaethedig sy'n gyfrwng Gymraeg, dwyieithog neu gyfrwng Saesneg. O'r holl leioedd arfaethedig, rhagwelwyd y byddai 54% yn lleoedd cyfrwng Cymraeg, 11% i fod yn lleoedd dwyieithog, a 35% i fod yn lleoedd cyfrwng Saesneg. Mae'n bwysig nodi nad yw dosbarthiad y lleoedd arfaethedig yn gymesur â dosbarthiad y lleoedd presennol. Er enghraifft, o edrych ar ddata AGC ar gyfer Awst 2025 (y set ddata ddiweddaraf a ddefnyddiwyd pan oeddem yn cynnal ein dadansoddiad), dangosir bod 74% o leioedd gofal plant (capasiti) mewn lleoliadau lle roedd y 'brif iaith weithredu' wedi'i chategoreiddio fel Saesneg, o'i gymharu â 15% lle mai Cymraeg oedd y brif iaith, a 12% lle nodwyd y brif iaith fel 'y ddwy'.

3.4. Crynodeb o ddadansoddi data

Yn gyffredinol, mae'r duedd bresennol yn dangos gostyngiad yn yr uchafswm capasiti ar draws y sector gofal plant. Mae'r gostyngiad hwn mewn capasiti wedi'i arsylwi ar draws nifer o fathau o ddarparwyr gofal plant. I'r gwrthwyneb, mae darparwyr gofal dydd llawn wedi gweld cynnydd yn eu capasiti uchaf dros yr un cyfnod.

Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd mewn capasiti ymhlith darparwyr gofal dydd llawn wedi bod yn ddigonol i wrthbwysu gostyngiadau mewn capasiti gan fathau eraill o ddarparwyr, gan arwain at ostyngiad cyffredinol mewn capasiti ar draws y sector.

Mae'r dadansoddiad o achosion cyfiawnhad busnes yn dangos bod y cynnydd posibl yn nifer y lleoedd o ganlyniad i'r Rhaglen Gyfalaf (2022 i 2025) yn gyfystyr â chyfran isel iawn o gyfanswm y lleoedd yn y sector. Felly, er bod disgwyl i'r Rhaglen Gyfalaf gynyddu capasiti mewn rhai lleoliadau (neu drwy leoliadau newydd), nid yw'n bosibl dweud y bydd y newidiadau capasiti a ragwelir drwy'r Rhaglen wedi arwain at gynydd cyffredinol mewn capasiti ar draws y sector, o ystyried y duedd hirdymor o gapasiti yn gostwng.


4. Canfyddiadau cyffredinol o'r broses ymgeisio

Yn yr adran hon, ac mewn adrannau dilynol, rydym yn cyfuno canfyddiadau o'r arolwg a chyfweliadau ansoddol dilynol gyda'r swyddogion awdurdod lleol hyn, yn ogystal â chanfyddiadau o'r cyfweliadau ansoddol â darparwyr. Yn gyntaf, rydym yn edrych ar foddhad â'r broses o ddrafftio a chyflwyno ceisiadau, gan ddechrau gyda cheisiadau am gyllid mawr.

4.1. Grantiau mawr

Fel y dangosir yn Ffigur 7 isod, graddiodd mwyafrif ymatebwyr (swyddogion awdurdodau lleol) yr arolwg ar-lein y broses o ddrafftio a chyflwyno achosion busnes ar gyfer grantiau cyfalaf mawr fel 'da iawn' (3 ymatebydd) neu'n 'dda' (12).

Ffigur 7: Yn gyffredinol, sut fydddech chi'n asesu'r broses o ddrafftio a chyflwyno achosion busnes ar gyfer grantiau cyfalaf mawr? (N = 18) Hydref i Dachwedd 2025



Disgrifiad o Ffigur 7: siart bar sy'n dangos bod 3 o'r ymatebwyr awdurdodau lleol a holwyd wedi graddio'r broses fel 'da iawn – clir', 12 yn ei disgrifio yn 'dda – clir ar y cyfan', 3 yn ei disgrifio yn 'wael' ac nid oedd unrhyw awdurdod lleol yn graddio'r broses fel 'gwael iawn'.

Helpodd cyfweliadau â swyddogion awdurdodau lleol i esbonio pam roedd llawer yn graddio'r broses fel 'da iawn' neu'n 'dda'. Roedd cyfranogwyr y cyfweliad yn teimlo bod y canllawiau yn gymharol hawdd i'w deall, a bod y broses ymgeisio yn gymharol glir, gan gynnwys sut i alinio eu hachos cyfiawnhad busnes â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Cafwyd canmoliaeth hefyd i swyddogion Llywodraeth Cymru. Nododd llawer o swyddogion awdurdodau lleol, pan oedd ganddynt ymholiadau ynglŷn â chwblhau eu hachos cyfiawnhad busnes, bod Llywodraeth Cymru yn aml yn ymateb yn gyflym ac yn darparu cyngor defnyddiol, er enghraifft, lle nad oedd awdurdodau yn siŵr sut i ateb cwestiynau penodol neu pa wybodaeth oedd ei hangen i ateb cwestiwn penodol.

Nododd rhai swyddogion awdurdodau lleol hefyd eu bod wedi cael trafodaethau cynnar gyda swyddogion Llywodraeth Cymru cyn cyflwyno achos cyfiawnhad busnes yn ffurfiol, a helpodd i sicrhau bod achosion cyfiawnhad busnes wedi'u datblygu'n dda ac yn cyd-fynd â'r disgwyliadau cyn eu cyflwyno.

“Mae'r gefnogaeth gan y tîm cyfalaf yn Llywodraeth Cymru...wedi bod yn dda iawn....hyd yn oed pan oedd y neges yn cyfleu... “dydych chi ddim wedi gwneud hyn” neu “mae angen i chi wneud hyn”. Mae'r gefnogaeth honno yn helpu, gallwn ofyn, “Beth ydych chi'n chwilio amdano yn y cwestiwn hwn?”...Mae'n bwysig bod yr holl ffeithiau allweddol yn yr achos cyfiawnhad busnes i alluogi penderfyniad gwybodus.” (Awdurdod lleol)

O safbwynt darparwyr, roedd profiadau o'r broses ymgeisio am grantiau mawr yn gyffredinol gadarnhaol, er bod eu lefel o gyfranogiad yn amrywio. Arweiniodd awdurdodau lleol y gwaith o ddatblygu a chyflwyno achosion cyfiawnhad busnes, gyda darparwyr yn cyfrannu gwybodaeth ategol fel gwybodaeth am alw a chapasiti, a lle bo hynny'n berthnasol, gwybodaeth am safle penodol neu gyfreithiol sy'n ymwneud â'r safle.

Fodd bynnag, cafwyd adroddiadau hefyd o gyfranogiad cyfyngedig iawn yn y broses ymgeisio, gydag awdurdodau lleol yn arwain yn gyfan gwbl ar ddatblygu a chyflwyno cynigion. Yn yr achosion hyn, rhoddwyd gwybod i ddarparwyr am y canlyniad, ac yn aml byddant yn cael eu diweddarau, yn hytrach na bod yn rhan o'r broses. Er bod y dull hwn yn cael ei ystyried yn gadarnhaol yn gyffredinol oherwydd lefel y cymhlethdod sy'n gysylltiedig â drafftio achosion cyfiawnhad busnes, roedd hefyd yn golygu nad oedd darparwyr bob amser yn ymwneud yn llawn â llunio prosiectau o'r cychwyn cyntaf. Mewn un achos, teimlai darparwr nad oedd yr adeilad terfynol yn diwallu ei anghenion yn llwyr (er enghraifft, mewn perthynas â storio), er mai pryder bach iawn oedd hwn meddai.

Er gwaethaf y safbwyntiau cadarnhaol hyn, gofynnwyd i awdurdodau lleol yn benodol am rwystrau a heriau i'r broses ymgeisio. Archwilir y rhain yn fanylach ym mhennod 5.

4.2. Grantiau bach

Mae adborth o gyfweiliadau darparwyr yn awgrymu bod y broses ymgeisio am grantiau bach yn gyffredinol yn cael ei hystyried yn hygyrch, ac wedi'i chwblhau heb ormod o anhawster, mewn llawer o amgylchiadau. Fe'i disgrifiwyd yn aml fel “clir” a “hawdd”, gyda darparwyr yn nodi bod y broses wedi dod yn haws dros amser wrth iddynt gyflwyno rhagor o geisiadau ar ôl derbyn eu grant cyntaf. Cafwyd adroddiadau hefyd am awdurdodau lleol yn symleiddio neu fireinio eu prosesau yn dilyn blwyddyn gyntaf y Rhaglen.

O safbwynt awdurdodau lleol, roedd y broses ymgeisio am grantiau bach hefyd yn cael ei hystyried yn gadarnhaol. Adroddodd yr awdurdodau lefelau uchel o ddiddordeb yn y cyllid ymhlith darparwyr, gyda'r rhan fwyaf o geisiadau yn llwyddiannus. Pan nad oedd ceisiadau'n cael eu cymeradwyo, roedd awdurdodau lleol weithiau'n rhoi adborth, fel y gallai darparwyr ddiwygio geiriad i wneud cais eto, neu mewn rhai achosion, roedd yr awdurdod lleol yn awgrymu eitemau amgen i'r eitem y gwrthodwyd iddynt i ddechrau.

Hefyd, nododd un awdurdod lleol eu bod yn cynnig hyfforddiant ar gyfer ysgrifennu grantiau, gweithdai, neu ddarparu samplau o geisiadau llwyddiannus i helpu darparwyr i wneud cais llwyddiannus am gyllid grant bach.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adran fethodoleg, yn gyffredinol nid oedd awdurdodau lleol yn gallu nodi darparwyr a oedd wedi bod yn gwbl aflwyddiannus wrth sicrhau cyllid, gan fod y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi derbyn cymorth ar ryw adeg. Adroddodd awdurdodau lleol hefyd fod y broses wedi dod yn fwy effeithiol dros amser, wrth i'r meini prawf gael eu hegluro ar gyfer darparwyr, a daethant yn ymwybodol o'r hyn a allai fod yn ddefnydd derbyniol o gyllid grant bach, yn ôl meini prawf y cyllid.

Fodd bynnag, yn yr un modd â'r adborth ar grantiau mawr, er gwaethaf y safbwyntiau cadarnhaol hyn, adroddwyd am nifer o rwystredigaethau a heriau gyda'r broses ymgeisio. Archwilir y rhain yn fanylach ym mhennod 5.


5. Rhwystrau wrth ddatblygu achosion busnes

Gofynnwyd i awdurdodau lleol yn yr arolwg ac mewn cyfweiliadau ansoddol dilynol am rwystrau rhag datblygu achosion busnes. Pwysig yw nodi, er bod rhai wedi disgrifio'r broses ymgeisio yn heriol, teimlwyd bod lefel y craffu yn briodol o ystyried lefel y cyllid dan sylw. Dywedodd rhai cyfranogwyr hefyd fod eu cyfradd llwyddiant uchel wrth sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer cyllid mawr yn cefnogi eu canfyddiad cadarnhaol o'r broses. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd lle roedd swyddogion awdurdodau lleol yn teimlo y gellid gwella'r broses, fel y nodir isod.

5.1. Grantiau cyfalaf mawr

Yn yr arolwg, gofynnwyd i swyddogion awdurdodau lleol a oedd unrhyw rwystrau a oedd yn ei gwneud hi'n anodd datblygu achosion busnes ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr. Gofynnwyd y cwestiwn hwn i bob ymatebydd, gan gynnwys yr un ymatebydd nad oedd ei awdurdod wedi cyflwyno achos cyfiawnhad busnes.

Ffigur 8: A oedd unrhyw rwystrau a oedd yn ei gwneud hi'n anodd i'ch awdurdod ddatblygu achosion busnes ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr? (N = 19) Hydref i Dachwedd 2025



Disgrifiad o Ffigur 8: siart bar sy'n dangos mai'r rhwystrau mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd eu 'capasiti cyfyngedig i ddatblygu achosion busnes', gyda 10 ymatebydd yn dewis yr ymateb hwn. Yr ymatebion mwyaf cyffredin nesaf, gyda 6 ymatebydd yn dewis pob un o'r opsiynau hyn, oedd 'anhawster sicrhau gwybodaeth ategol', 'gofynion ariannol anodd eu bodloni neu brofi', ac 'anhawster cael dyfynbrisiau'.

Dyweddodd tua hanner cyfanswm yr ymatebwyr (10 o 19 ymatebydd) fod eu gallu cyfyngedig i ddatblygu achosion busnes yn rhwystyr. Yn y cyfweiliadau ansoddol ag awdurdodau lleol, dywedodd rhai bod ganddynt brosiectau posibl yr oeddent yn teimlo y byddai'n hyfyw, fodd bynnag, dim ond nifer cyfyngedig o achosion cyfiawnhad busnes y gallent eu cyflwyno oherwydd eu gallu a'u hadnoddau cyfyngedig. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd: "Mae gennym lawer o brosiectau y gallem eu gwneud ond nid oes gennym y staff". Yn wir, mae rhai awdurdodau lleol wedi cyflogi staff, gan gynnwys ar secondiad o swyddi eraill, i helpu i reoli'r Rhaglen Gyfalaf.

Dyweddodd 6 ymatebydd arolwg fod 'anhawster sicrhau gwybodaeth ategol' yn rhwystyr. Wrth drafod hyn yn y cyfweiliadau ansoddol, daeth i'r amlwg bod hyn yn ymwneud â dwyn yr holl dystiolaeth ofynnol ynghyd, yn hytrach na dod o hyd i ddogfennau penodol, neu eu creu. Fodd bynnag, gan ddychwelyd at bwynt a wnaed yn gynharach, roedd lefel uchel o foddhad cyffredinol gyda'r broses ymgeisio a chymeradwyo, gyda llawer yn nodi bod manwl gywirdeb y broses ymgeisio yn cael ei ystyried yn dderbyniol o ystyried y lefelau cyllid dan sylw.

Dyweddodd yr un nifer o ymatebwyr (6) fod 'gofynion ariannol anodd eu bodloni neu brofi' yn rhwystyr. Thema gyffredin o'r cyfweiliadau oedd lefel y risg ariannol gychwynnol sy'n gysylltiedig â chyflwyno achosion busnes. Dywedodd awdurdodau lleol ei bod yn ofynnol iddynt ysgwyddo costau cychwynnol, fel gwaith dylunio neu arolygon, cyn derbyn cymeradwyaeth ffurfiol. Dywedodd rhai awdurdodau lleol fod ganddynt safleoedd yr oeddent yn meddwl y byddai'n hyfyw ar gyfer grant mawr, ond nad oeddent yn gallu bwrw ymlaen gan fod eu hawdurdod yn ystyried ei fod yn risg annerbyniol.

"Yr hyn y byddwn i'n ei ddweud o ran rhai o'r anawsterau rydym ni wedi'u hwynebu, yr un mwyaf blaenllaw yw "gwariant mewn perygl". Mae'n broblem ar draws pob un o'r prosiectau. Fel awdurdod lleol, nid oes gennym yr arian hwnnw. Fel y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ledled y DU, rydym yn gorwario. Nid oes gennym gronfa arian cyfalaf y gallwn fanteisio arni. Rydym wedi cael trafferthion mawr gweld rhai prosiectau yn dwyn ffrwyth. Gwyddom ei fod yn brosiect dilys, gwyddom pe bai gennym yr arian y gallem wneud iddo lwyddo ond oherwydd bod yna "wariant mewn perygl", dydi ein huwch dîm arwain ddim yn cymryd y risg." (Awdurdod lleol)

Roedd awdurdodau lleol yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn ad-dalu'r costau hyn hyd at gyfyngiad o £50,000 os cymeradwyir achos cyfiawnhad busnes, ac roeddent yn gwerthfawrogi hyn. Fodd bynnag, nodwyd nad yw hyn yn newid y ffaith bod y costau hyn yn risg sylweddol, ac na fyddent yn cael eu had-dalu os na fydd achosion cyfiawnhad busnes yn cael eu cymeradwyo. Dywedodd yr awdurdodau hefyd fod chwyddiant wedi cynyddu'r risg ariannol ymlaen llaw, ac roedd hefyd wedi creu ansicrwydd wrth dderbyn amcangyfrifon gan gontractwyr i gefnogi achos cyfiawnhad busnes.

Roedd un enghraifft a ddarparwyd gan swyddog awdurdod lleol yn ymwneud ag ardal sydd ar hyn o bryd heb ddarpariaeth ond sydd ag ychydig iawn o leoliadau addas ar gael, ac mae angen ymchwiliadau sylweddol ar y ddaear. Er mwyn penderfynu a fyddai safle posibl yn ymarferol, byddai angen iddynt ymgymryd â'r elfennau hyn o waith tir neu gomisiynu arolygiadau safle. Fodd bynnag, nid yw'r prosiect wedi symud ymlaen, yn rhannol oherwydd

pryderon am golli arian ar y gweithgareddau hyn, a ddisgrifiwyd yn gostus iawn ganddynt, pe na bai Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo eu cais yn y pen draw.

Mewn perthynas â'r pwyntiau uchod, a phwyntiau eraill yn yr adroddiad hwn, cwestiynodd ychydig o awdurdodau lleol a ellid ychwanegu cam at y broses, er enghraifft, cyn-gymeradwyaeth, neu ddatganiad o gefnogaeth gyffredinol (os ystyrir ei fod yn gynnig addas yn gyffredinol). Teimlwyd, os oes elfen o gefnogaeth ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru, yna gallai hyn roi'r hyder i awdurdodau lleol fynd amdani gyda phrosiectau maen nhw'n teimlo sy'n hyfyw. Awgrymodd rhai y gallai hyn fod yn elfen o gymeradwyaeth neu gefnogaeth heb roi unrhyw gyllid, ac awgrymodd eraill gam cyn-cymeradwyo lle cwmpesir y cyllid ar gyfer y broses gwneud cais am ganiatâd cynllunio, neu ddichonolrwydd cychwynnol.

Dywedodd 6 ymatebydd fod 'anhawster wrth geisio dyfynbrisiau' yn rhwstr. Roedd hyn yn cynnwys contractwyr nad oeddent bob amser yn ymatebol pan fyddant yn barod i ddechrau prosiect, neu roi dyfynbris arall, pan fo achos cyfiawnhad busnes wedi'i gymeradwyo (er enghraifft, os cymeradwywyd yr achos cyfiawnhad busnes fisoedd lawer ar ôl rhoi dyfynbrisiau cychwynnol). Dywedodd awdurdodau lleol hefyd eu bod weithiau'n cael anawsterau wrth geisio dyfynbrisiau i gefnogi achosion cyfiawnhad busnes gan nad yw'r prosiect wedi'i gymeradwyo ar y cam hwnnw.

"Maen nhw'n chwilio am yr holl fanylion hynod fanwl hyn ond mae bron angen proses arnoch cyn cyflwyno'r achos busnes llawn. Felly gallant ddweud, yn fras mae'r cynnig hwn yn dda a byddem yn ei gefnogi ond mae angen y wybodaeth fanwl arnom nawr. Er mwyn rhoi cysur i'r contractwyr, oherwydd os ydym yn ceisio dyfynbrisiau ac maen nhw eisiau gwybodaeth hynod fanwl o'r holl waith, beth yw'r gwerth am arian, cyn i mi hyd yn oed gael y cytundeb cyllid, mae hynny'n llawer i ofyn i rywun ymddiried ynof fi nad yw hyn yn mynd i fod yn wastraff amser iddynt. Dan gynlluniau blaenorol, fe wnaethon nhw lawer o waith i ni cyn iddo hyd yn oed fynd i achos busnes. Mae yna lawer i'w wneud cyn templed achos busnes a chyflwyno achos busnes, efallai drafft yn gyntaf i gefnogi, dyna fyddai fy marn gyffredinol am hynny." (Awdurdod lleol)

I'r gwrthwyneb, trafododd un awdurdod lleol fod rhai contractwyr yn cysylltu â nhw'n barhaus ar ôl cyflwyno dyfynbris, gan holi pa bryd y byddai'r prosiect yn dechrau, neu yn nodi eu bod eisiau dechrau arni.

Dewisodd 5 ymatebydd yr opsiwn 'gofynion busnes yn rhy fanwl neu'n gymhleth', a dewisodd 4 'diffyg eglurder neu ganllawiau gan Lywodraeth Cymru'. Yn gysylltiedig â'r pwyntiau hyn, dywedodd ychydig o gyfranogwyr, ar ôl cyflwyno eu hachos cyfiawnhad busnes, eu bod wedi derbyn llawer o gwestiynau dilynol a oeddent yn teimlo eu bod naill ai'n ailadrodd gwybodaeth a oedd eisoes wedi'i chynnwys yn yr achos cyfiawnhad busnes, neu'n ymdrin â phynciau newydd nad oeddent wedi'u nodi yn y canllawiau neu yn nhempled yr achos cyfiawnhad busnes.

"Cael achos busnes drwodd, mae nifer y cwestiynau rydych chi'n eu cael yn ôl, mae fel petaech chi'n ysgrifennu *War and Peace*. Rydych chi'n dal i gael mwy o

ymholiadau gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na chael yr holl gwestiynau ar yr un pryd...Rydych chi'n ticio un blwch ond yna mae yna 5 arall y mae angen i chi eu ticio.” (Awdurdod Lleol)

"Yn strategol, rydym yn cynyddu capasiti yn y lleoliadau rydym ni'n eu datblygu. Er enghraifft, os yw lleoliad yn gynllun sydd â 24 lle ar hyn o bryd, rydym yn ymchwilio a allwn ei adeiladu hyd at 32 o leoedd i ganiatáu ehangu. Efallai na fydd hynny'n cynyddu capasiti gofal plant cyffredinol net, oherwydd rydym ni'n colli lleoliadau mewn mannau eraill, ond mae'n help." (Awdurdod Lleol)

Fel y nodwyd yn gynharach ym Mhennod 3, yr uchafswm capasiti o fewn y sector oedd tua 79,500 yn 2019 a ostyngodd i oddeutu 72,500 erbyn 2025. Felly, mae'r cynnydd posibl yn nifer y lleoedd (919 o leoedd) o ganlyniad i gyllid mawr gan y Rhaglen yn cynrychioli cyfran isel iawn o gyfanswm nifer y lleoedd yn y sector (1.3%).

10.3.2. Cyferbyniadau rhwng cyllid bach a chyllid mawr

Roedd swyddogion awdurdodau lleol yn aml yn gwneud sylwadau ar effaith grantiau bach. Fe wnaethant ddisgrifio bod grantiau bach yn cael effaith eang ac uniongyrchol ar draws ystod o leoliadau yn eu hardal, er enghraifft, gwaith atgyweirio, adnewyddu, ardaloedd dysgu yn yr awyr agored, neu offer newydd. Fe'u disgrifiwyd fel rhai sy'n darparu buddion yn gyflym ac ar raddfa, ar draws ystod o leoliadau.

Roedd hyn yn cyferbynnu â'u barn ar grantiau mawr sydd, er eu bod yn dal i fod yn effeithiol iawn (yn enwedig mewn perthynas â meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd yn flaenorol), yn cymryd mwy o amser i ddangos eu heffeithiau. Mewn llawer o achosion, nid oedd effaith lawn prosiectau mawr yn ardal awdurdod lleol wedi'i gwireddu eto, gan y gallai prosiectau yn ystod y cyfnod ariannu hwn fod wedi'u gohirio, yn dal i fynd rhagddynt, neu dim ond newydd eu cwblhau. Ar nodyn arall, mewn rhai ardaloedd, dim ond un prosiect mawr, neu ddim un o gwbl, a gyflawnwyd yn ystod Rhaglen 2022 i 2025.

10.3.3. Efallai na fyddai cyfleusterau gwell wedi bod yn bosibl fel arall

Roedd y cyllid yn arbennig o werthfawr yng nghyd-destun pwysau ariannol ehangach sy'n wynebu'r sector gofal plant. Gwelwyd bod y Rhaglen Gyfalaf hon yn darparu cymorth pwysig, gan alluogi lleoliadau i fuddsoddi yn eu cyfleusterau, yn enwedig gan na fydd llawer o leoliadau wedi gallu gwella eu lleoliad heb yr incwm hwn oherwydd pwysau ariannol ehangach. Yn yr un modd, dywedodd un darparwr heb gyllid na fyddai naill ai wedi ehangu i ateb y galw yn ei ardal, neu byddai angen iddo gynyddu ffioedd i dalu'r costau.

"Ni fyddem wedi gallu ehangu heb y grant, neu os oeddem eisiau ehangu, yna byddai angen i ni fod wedi cynyddu ffioedd er mwyn talu amdano. Fel hyn, drwy dderbyn cyllid, gallwn gadw'r ffioedd yn is, fel y maen nhw." (Darparwr, derbynnydd grant mawr a bach)

10.3.4. Mae'r effaith yn ymestyn y tu hwnt i adeiladau

Roedd awdurdodau lleol a darparwyr hefyd yn awyddus i dynnu sylw at effaith y cyllid, yn gyffredinol, ar deuluoedd a staff. Fe wnaethant ddisgrifio profiadau gwell i blant, gyda chyfleusterau pwrpasol, cyfleusterau wedi'u hadnewyddu, neu offer chwarae newydd, neu gyfleusterau gwell yn benodol ar gyfer y rhai ag anghenion ychwanegol.

“Gallwch weld yr effeithiau cadarnhaol ar unwaith. Rydym wedi cael gwarchodwyr plant nad oeddent yn gallu caniatáu i'w plant fynd i chwarae yn yr awyr agored. Roedd AGC yn teimlo ei bod yn anniogel, felly rydym wedi eu cefnogi gyda grantiau bach i sicrhau bod yr ardd yn ddiogel. Rydym wedi gosod llochesi ar lawer o'n cyfleusterau gofal plant sy'n hyrwyddo chwarae yn yr awyr agored. Os ydym yn gweld cynhyrchion sy'n dod i mewn lle mae seddi car wedi dyddio... gallwn ddisodli'r rhain.” (Awdurdod Lleol)

Fe wnaethant hefyd ddisgrifio'r effaith ar rieni, yn bennaf yn ymwneud â chyd-leoli. Nododd swyddogion yr awdurdod a darparwyr yn aml y manteision uniongyrchol ar gyfer teuluoedd, gan dynnu sylw at y ffaith bod gwasanaethau wedi'u cyd-leoli yn gwneud bywyd yn haws i'r rhai sydd â phlant sy'n mynychu lleoliadau ysgol a gofal plant. Gwnaethant hefyd bwysleisio bod gofal cofleidol yn haws i'w ddarparu ar gyfer darparwyr pan fo cyfleusterau wedi'u lleoli ger safleoedd ysgolion. Mewn achos arall, roedd un lleoliad yn gallu ymestyn eu hadeilad cyd-leoli i greu gofod newydd sy'n addas ar gyfer babanod, gan wella opsiynau i rieni.

Soniwyd hefyd am amgylcheddau gwaith gwell i staff, yn bennaf drwy gyllid grant mawr, lle ellid adeiladu lleoliadau newydd, a all gynnwys ystafelloedd staff. Fodd bynnag, mae gwelliannau i staff hefyd wedi'u gwneud drwy grantiau bach lle mae gwaith adnewyddu wedi'i gwblhau sy'n darparu gwell amodau gwaith a chyfleoedd chwarae gyda phlant.

Disgrifiodd un darparwr ei fod wedi gorfod symud adeiladau sawl gwaith dros gyfnod o ychydig flynyddoedd oherwydd prydlesi dros dro. Fodd bynnag, roedd cyllid mawr yn ei alluogi i symud i safle parhaol, a oedd yn gwella sicrwydd swyddi a boddhad ymhlith staff a chefnogi cyfraddau cadw staff.

“Rydym ni wedi symud 5 gwaith ers i mi fod yma. Mae wedi rhoi sefydlogrwydd i ni. Teimlwn ei fod yn ddatrysiad parhaol nawr. Rydym ni wedi symud o adeiladau lle'r oedd rhywbeth wedi digwydd i'r to, er enghraifft, i safle dros dro arall. Ond dyma ein cartref nawr.” (Darparwr, derbynnydd grant mawr)

Nododd cyfranogwyr hefyd fod cyllid mawr wedi cefnogi cynaliadwyedd busnes hirdymor lleoliadau gofal plant. Er enghraifft, roedd rhai lleoliadau yn gallu symud i adeiladau newydd ar ôl gweithredu yn flaenorol ar safleoedd â phrydlesi dros dro neu fregus, lle roeddent mewn perygl o gau oherwydd nad oedd adeiladau yn bodloni'r safonau gofynnol (megis cydymffurfiaeth ag AGC).

10.3.5. Cefnogi ehangu Dechrau'n Deg

Roedd cyfranogwyr yn aml yn tynnu sylw at rôl y Rhaglen Gyfalaf wrth gefnogi gydag ehangu'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg. Un o brif effaith y cyllid oedd galluogi lleoliadau i ddatblygu capasiti i ddarparu gofal plant Dechrau'n Deg, yn enwedig i blant dwy oed. Mewn rhai achosion, ni fyddai darparwyr wedi gallu cynnig lleoedd Dechrau'n Deg heb fuddsoddiad cyfalaf i ehangu neu addasu eu hadeiladau. Fel y nododd un awdurdod:

“Ni fyddai rhai o'r lleoliadau hyn wedi gallu dechrau Dechrau'n Deg oherwydd nad oedd ganddynt y capasiti... Ers cael y gyfalaf, mae rhai ohonynt wedi gwneud cais i allu dechrau Dechrau'n Deg. Maen nhw wedi bod yn llwyddiannus yn gwneud hynny.” (Awdurdod Lleol)

Mae hyn yn cyd-fynd â'r data SASS a gyflwynir ym Mhennod 3, sy'n dangos cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth Dechrau'n Deg rhwng 2021 a 2024. Dros y cyfnod hwn, cynyddodd nifer y gwasanaethau sy'n darparu Dechrau'n Deg o 477 i 828, ac mae uchafswm capasiti gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi cynyddu o 13,794 o leoedd i 26,899 o leoedd. Er na ellir priodoli'r cynnydd hwn i'r Rhaglen Gyfalaf yn unig, gan ei fod hefyd yn adlewyrchu ehangu ehangach Dechrau'n Deg, mae'n cefnogi canfyddiadau bod darpariaeth Dechrau'n Deg wedi ehangu yn ystod cyfnod y Rhaglen.

Fel y nodwyd yn gynharach, disgrifiodd awdurdodau bod prosiectau cyfalaf yn aml yn cael eu datblygu gydag ehangu Dechrau'n Deg mewn golwg. Fodd bynnag, dywedodd rhai awdurdodau hefyd y gallai eglurder cynharach ar gyflwyno Dechrau'n Deg fod wedi galluogi cynllunio mwy effeithlon. Awgrymwyd bod camau cychwynnol y Rhaglen yn canolbwyntio'n fwy ar gynyddu'r ddarpariaeth i blant tair oed drwy'r Cynnig Gofal Plant, a bod mwy o ffocws ar Dechrau'n Deg yn y blynyddoedd dilynol oherwydd ehangu Dechrau'n Deg.

10.3.6. Adolygu'r effaith

Nododd un awdurdod lleol eu bod wedi dechrau gweld rhywfaint o effaith ar raddau arolygu AGC yn eu hardal, yn enwedig mewn perthynas â'r agwedd 'amgylcheddol' ar arolygiadau. Fodd bynnag, fe wnaethant nodi, gan fod lleoliadau gofal plant yn aml yn cael eu harchwilio sawl blwyddyn ar wahân, gall fod yn heriol nodi cysylltiad clir rhwng y ddau.

Ar gyfer adolygiadau o effaith yn y dyfodol, awgrymwyd y gellid nodi gwelliannau yn gyflymach mewn lleoliadau Dechrau'n Deg, lle mae ansawdd yr amgylchedd yn cael ei fonitro'n fwy rheolaidd drwy ymweliadau cynghori ac offer fel y Raddfa Graddio Amgylchedd Plentynod Cynnar (ECERS).

10.3.7. A oes yna rai darparwyr yn cael eu gorfodi?

Roedd cynrychiolydd o un darparwr, a oedd hefyd yn gweithio gyda lleoliadau eraill yn ei ardal fel rhan o gorff ymbarél, yn teimlo bod rhai prosiectau mawr yn ei ardal yn cael eu symud ymlaen heb fawr o gefnogaeth gan y darparwyr eu hunain, neu'r gweithredwyr sy'n rhedeg lleoliadau. Teimlant fod safleoedd newydd wedi'u datblygu, pan deimlant fod y safle presennol yn ddigonol.

“Rydym ni wedi clywed sïon y gallai fod yna gaban newydd yn dod yn fuan, rydym ni wedi clywed y si, ond nid yw'r grŵp eisiau caban, maen nhw'n hapus gyda sut mae pethau ar hyn o bryd, rydym ni wedi bod yno ac mae'n ymddangos bod y lleoliad yn gweithio'n dda iawn. Dyma'r math o beth rydym ni'n ei weld.” (Darparwr, derbynnydd grant bach a derbynnydd grant mawr)

Roedd yr un cynrychiolydd hefyd yn teimlo bod achosion lle roedd prosiect mawr i symud lleoliad gofal plant i safle ysgol wedi'i gynnal heb ymgynghori priodol â gweithredwr y lleoliad gofal plant presennol a oedd ar fin ei symud. Yn yr achosion hyn, roedd y cyfranogwr hwn yn teimlo bod yr awdurdod lleol wedi cyfathrebu'n bennaf â phennaeth yr ysgol, ac y dylai mwy o drafodaethau fod wedi digwydd gyda'r gweithredwr i drafod y lleoliad presennol, a'r rhesymeg dros symud y safle.

Yn ymwneud â'r pwynt hwn, dywedodd 2 gyfranogwr eu bod yn ymwybodol o leoliad yn eu hardal wedi'i symud i safle newydd heb gyfathrebu digonol. Er bod y lleoliad pwrpasol newydd yn cynnig cyfleusterau gwell, arweiniodd y symudiad at gynnydd sylweddol mewn rhent, gan dreblu eu costau mewn cymhariaeth â'r lleoliad cymunedol blaenorol. O ganlyniad, nid oedd y lleoliad yn gallu cadw eu pen uwchlaw'r dŵr a bu rhaid iddynt gau.

“O ran [enw'r lleoliad], mae'r adeilad newydd hwn yn wych, mae wedi galluogi'r lleoliad i symud ymlaen ac ehangu a chynnig lle i lawer mwy o blant. Yn anffodus, nid yw'n gweithio fel yna yn [enw lleoliad arall]. Rydym ni'n mynd yn ôl at y ffaith nad oeddem yn gwybod amdano, ac na wnaethom ofyn i'r cyngor am yr adeilad. Y peth nesaf yw 'iawn, dyma chi, mae hwn yn adeilad newydd, mae'n rhaid i chi symud i mewn i'r adeilad hwn nawr a, sypréis, mae'r rhent 3 gwaith yn uwch ac nid oes mwy o gapasiti na'r adeilad blaenorol'... Mae'r adeilad yn wag ar hyn o bryd.” (Darparwr, derbynnydd grant bach a derbynnydd grant mawr)

Roedd y ddau gyfranogwr hyn yn teimlo bod angen i rai awdurdodau lleol gydweithredu mwy â chyrff ymbarél yn eu hardal, i drafod beth maen nhw'n teimlo yw'r gofynion ar gyfer eu hardal cyn bwrw ymlaen â rhaglenni cyfalaf mawr. Unwaith y bydd anghenion yn cael eu trafod a'u hasesu, anogodd y ddau gyfranogwr yr angen am fwy o eglurder ynghylch rhent a chostau rhedeg posibl ar gyfer unrhyw safle pwrpasol newydd.

Yn yr un modd, roeddent yn teimlo y byddai materion ymarferol eraill y maent wedi'u hwynebu, er enghraifft, diffyg toiledau mewn lleoliad newydd sy'n effeithio ar gapasiti cyffredinol, wedi cael eu datrys pe byddent wedi'u hymgyngori o'r cychwyn cyntaf. Roedden nhw, fodd bynnag, yn canmol yn fawr sut mae rhai awdurdodau lleol eraill yn ymgysylltu â chyrff ymbarél.

11. Gwelliant yn y dyfodol

Gofynnwyd i swyddogion awdurdod lleol a darparwyr yn y cyfweiliadau ansoddol a oeddent yn teimlo y gallai fod unrhyw welliannau i'r Rhaglen yn y dyfodol. Dangosir y prif themâu sy'n dod i'r amlwg o'r sgysiau hyn isod. Mae llawer o'r rhain yn adlewyrchu themâu a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, gydag adrannau perthnasol yn cael eu cyfeirio lle bo hynny'n briodol, ac mae eraill yn cynrychioli pwyntiau newydd a godwyd gan gyfranogwyr.

11.1. Mwy o hyblygrwydd mewn perthynas ag amserlenni ar gyfer prosiectau mawr

Croesawodd awdurdodau lleol newid yn y broses i ganiatáu i brosiectau mawr ymestyn ar draws blynedd ariannol, yn hytrach na gorfod eu cwblhau o fewn blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, roedd hyd yn oed ymholiadau ynghylch a ellid cwblhau prosiectau mwy sylweddol o fewn rhaglen tair blynedd. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau cynharach bod amserlenni annigonol yn rhwystr allweddol, gydag 11 o ymatebwyr yr arolwg yn nodi hyn fel her i gyflawni prosiectau cyfalaf mawr (adran 9.1). Er gwaethaf yr amserlen hirach, nododd cyfranogwyr y gall cyfran sylweddol o'r amser hwn weithiau gael ei golli yn ystod y camau cychwynnol, gan gynnwys yr amser rhwng cyhoeddi'r rhaglen a rhyddhau canllawiau a meini prawf ymgeisio. O ganlyniad, lleihawyd yr amser sydd ar gael ar gyfer cyflawni'r prosiect yn effeithiol. Gofynnodd yr awdurdodau a allai'r rhaglen fod yn hirach na thair blynedd, neu a ellir gwneud ceisiadau am gyllid ar 'ddiwrnod cyntaf' neu debyg o'r Rhaglen, os oes ymwybyddiaeth gynnar y bydd y Rhaglen yn cael ei chyflwyno i raglen 3 blynedd arall.

“Mae'n amheus a yw'r rhaglen tair blynedd yn ddigon hir. Erbyn i'r llythyrau a'r ffurflenni cais ddod allan, erbyn i chi wneud y gwaith hwnnw, i nodi seiliau addas, rhannu eich cynigion, rydych chi eisoes wedi colli blwyddyn drwy wneud yr holl waith hwnnw.” (Awdurdod lleol)

Mewn perthynas â'r pwyntiau uchod, cwestiynodd ychydig o awdurdodau a ellid ail-ystyried yr amseroedd ar gyfer adolygiadau panel, neu a ellid eu cynnal yn amlach. Roedd rhai awdurdodau'n teimlo y gall yna fod gormod o aros am gymeradwyaeth weithiau.

Fel y nodwyd eisoes, roedd yna bryderon tebyg gan gyfranogwyr ynghylch y grantiau bach, yn ymwneud â chwynion mai dim ond yn ddiweddarach yn y flwyddyn y gall cyfnodau cyllido ddechrau ar adegau, gan effeithio ar gyflawni prosiect a ariennir gan grant bach ar raddfa fwy.

11.2. Llywio ymholiadau

Er eu bod yn cydnabod pwysigrwydd diwydrwydd dyladwy, roedd ychydig o awdurdodau lleol yn teimlo y gallai ymholiadau weithiau fod yn “ormodol” neu'n “ailadroddus”, yn enwedig

Ile roedd gwybodaeth debyg eisoes wedi'i darparu mewn mannau eraill yn y cais. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau cynharach, sef pan ofynnwyd iddynt am rwystr rhag datblygu achosion cyfiawnhad busnes, nododd 5 ymatebydd yr arolwg fod 'gofynion busnes yn rhy fanwl neu'n gymhleth' a nododd 4 'egllurder neu ganllawiau annigonol gan Lywodraeth Cymru', gyda swyddogion awdurdodau lleol hefyd yn trafod ymholiadau dilynol dro ar ôl tro neu annisgwyl yn y cyfweiliadau ansoddol (adran 5.1).

Gwelwyd bod hyn yn creu baich gweinyddol ychwanegol ac, mewn rhai achosion, yn cyfrannu at oedi wrth symud ymlaen â cheisiadau. Awgrymodd awdurdodau y gallai mwy o eglurder ar y dechrau, neu brosesau adborth symlach, helpu i leihau dyblygu a lleihau baich gweinyddol.

11.3. Lleihau'r risg ariannol i awdurdodau lleol

Gofynnodd rhai awdurdodau lleol a allai Llywodraeth Cymru adolygu'r dull gweithredu mewn perthynas â chostau 'mewn perygl' ymlaen llaw. Fel y nodwyd yn gynharach, adroddodd ychydig o awdurdodau fod y risg ariannol wedi eu hatal rhag bwrw ymlaen â phrosiectau yr oeddent yn credu y byddai wedi bod yn hyfyw. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau cynharach, lle nododd 6 ymatebydd yr arolwg fod 'gofynion ariannol yn anodd eu bodloni neu eu profi' fel rhwystr, ac amlygodd awdurdodau lleol ymhellach y risgiau sy'n gysylltiedig â chostau 'gwariant mewn perygl' ymlaen llaw yn ystod cyfweiliadau dilynol (adran 5.1).

Awgrymodd ychydig o awdurdodau lleol y gallai Llywodraeth Cymru ystyried ychwanegu cam ychwanegol at y broses, fel cymeradwyaeth 'mewn egwyddor', i ddarparu arwydd cynnar o a fyddai achos cyfiawnhad busnes yn debygol o dderbyn cymeradwyaeth lawn.

11.4. Gosod templed ar gyfer amrywiadau

Tynnodd rhai awdurdodau lleol sylw at heriau wrth reoli amrywiadau neu amgylchiadau esgusodol, gan gynnwys dibynnu ar gyfnewidiadau e-bost anffurfiol, gan adlewyrchu pryderon tebyg a godwyd yn gynharach yn y bennod hon ynghylch llywio ymholiadau a baich gweinyddol (adran 11.2).

Er bod templed safonedig ar waith ar gyfer rheoli amrywiadau neu amgylchiadau esgusodol, gallai hyn adlewyrchu diffyg ymwybyddiaeth neu ddefnydd cyson o'r templed. Roedd yr awdurdodau hyn yn teimlo y byddai dull mwy safonol yn gwella cysondeb ac yn lleihau'r baich gweinyddol – efallai diffyg ymwybyddiaeth neu gof o'r templed sydd eisoes ar waith.

11.5. Addasu cais ar gyfer prosiectau adnewyddu aml-safle

Pwynt newydd a godwyd gan un awdurdod lleol oedd bod fformat yr achos cyfiawnhad busnes presennol yn gweithio'n dda ar gyfer datblygiadau unigol, ond heb fod cystal lle

ceisir cyllid ar gyfer sawl darn o waith llai ar draws sawl lleoliad Dechrau'n Deg, megis ailbeintio, gwelliannau draenio, neu ailosod giât, wedi'u gwasgaru ar draws sawl safle.

Gofynnodd yr awdurdod a ellid datblygu ffurflen gais amgen i ddarparu ar gyfer adnewyddu sawl safle yn well, megis defnyddio'r brif ffurflen i gefnogi'r gwaith cyffredinol a'r cyfansymiau, wedi'i gefnogi gan atodiad yn amlinellu'r gwaith unigol ar draws lleoliadau.

11.6. Cefnogi darparwyr llai i gael gafael ar gyllid

Tynnodd rhai awdurdodau lleol sylw at yr heriau sy'n wynebu darparwyr llai, yn enwedig gwarchodwyr plant, wrth gael gafael ar gyllid. Nodwyd, er bod rhai lleoliadau mwy yn gallu gwneud cais am gyllid flwyddyn ar ôl blwyddyn, roedd darparwyr llai yn aml yn fwy cyfyngedig oherwydd diffyg capasiti ac ansicrwydd ynghylch cymhwysedd, yn enwedig mewn perthynas â meini prawf fel 'disodli' eitemau presennol.

Yn benodol, cafwyd galwadau gan awdurdodau lleol a gwarchodwyr plant eu hunain am fwy o eglurder ynghylch pa fathau o welliannau y gellir eu defnyddio i gefnogi gwarchodwyr plant, yn enwedig lle mae gorgyffwrdd canfyddedig rhwng gwelliannau cartref a gwelliannau sy'n gysylltiedig â gofal plant (trafodwyd dan 5.2, er enghraifft, lle trafododd awdurdodau lleol heriau wrth dderbyn ceisiadau am welliannau o'r fath). Mae rhai gwarchodwyr plant yn dweud y gallai dull gweithredu mwy teilwredig, gan gynnwys mwy o ddeialog neu ymweliadau safle, helpu i ddeall amgylchiadau unigol yn well a sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio at welliannau sydd wirioneddol yn gwella darpariaeth gofal plant.

"Rwy'n credu bod angen iddyn nhw edrych ar warchodwyr plant fwy, yn hytrach na lleoliadau mwy o faint yn unig, ar yr hyn sydd ei angen arnom. Ar gyfer gwelliannau awyr agored fel decin a'r ffensys, efallai trefnu bod rhywun yn dod i edrych arnynt. Er enghraifft, ni fyddai'n ychwanegu llawer o werth at fy nhŷ i ychwanegu ychydig bach o ddecin a chael ffens o'i gwmpas mewn gwirionedd. Pe byddwn i'n gallu dangos iddyn nhw a rhoi gwybod iddyn nhw am beth ydw i'n chwilio, a'r budd y byddai'n ei gynnig, yna efallai y gallan nhw weld drostynt eu hunain." (Darparwr, derbynnydd grant bach)

Fodd bynnag, soniwyd am enghreifftiau o hyblygrwydd. Er enghraifft, roedd un gwarchodwr plant, ymhlith eitemau eraill ar draws gwahanol flynyddoedd, wedi cyflwyno cais am gyllid tuag at gar newydd. Cafodd ei wrthod i ddechrau, ond cysylltodd â'i awdurdod lleol y flwyddyn ganlynol i holi a oedd yna werth ail-ymgeisio. Esboniodd ei fod wedi'i leoli mewn ardal wledig iawn, a heb gar, ni fyddai'n gallu darparu gofal cofleidol, na mynd â'r plant allan i fwynhau a chael cyfleoedd dysgu. Nodwyd hefyd, er y gallai brynu car, y cyfan y gallai fod wedi'i fforddio ar y pryd fyddai car rhatach, llai dibynadwy, a fyddai'n peri risgiau wrth gludo plant. Adolygodd ei gais i nodi'n glir yr angen am y car a'r effaith bosibl ar ei ddarpariaeth. Dyfarnwyd grant bach iddo i helpu i dalu am y car.

Yn ogystal, nododd rhai cyfranogwyr fod y gofyniad i ddarparwyr barhau i fod yn weithredol am 5 mlynedd ar ôl derbyn cyllid yn atal rhai gwarchodwyr plant a darparwyr llai. Hyd yn oed ymhlith darparwyr hirsefydledig, roedd yr amod hwn yn effeithio ar yr hyn y gwnaethant

gais amdano, os oeddent yn gwneud cais o gwbl, yn enwedig yn ystod cyfnod o bwysau ariannol yn y sector.

11.7. Adolygu meini prawf ar gyfer ddisodli eitemau

Yn dilyn yr uchod, roedd ychydig o awdurdodau lleol a darparwyr yn teimlo y gallai rhai darparwyr llai gael eu heffeithio'n anghymesur gan y gofyniad am grantiau bach i 'ddisodli' offer presennol, yn hytrach na chaniatáu i leoliadau brynu eitemau newydd nad oedd ganddynt o'r blaen. Cwestiynodd sawl awdurdod a allai lleoliadau llai, fel gwarchodwyr plant, elwa mwy pe bai'r meini prawf hyn yn cael eu llacio, a holodd a allai Llywodraeth Cymru adolygu hyn.

Disgrifiodd un gwarchodwr plant bod rheolau 'atgyweirio neu ddisodli' lleol, yn ogystal â chyfyngiadau ar gyfer rhai eitemau, yn ei atal rhag prynu eitemau a fyddai o fudd iddo a'r plant sydd yn ei ofal (gweler yr astudiaeth achos yn adran 12.1). Er enghraifft, roedd eisiau prynu cadair wthio 'pob tir', er mwyn ei ganiatáu i fynd â'i blant "allan i'r awyr agored a chrwydro". Fodd bynnag, roedd amod ei awdurdod mai dim ond i 'atgyweirio neu ddisodli' eitemau y gellir rhoi cyllid yn golygu na all brynu'r eitem hon, ac roedd gan ei awdurdod gyfyngiad ar gadeiriau gwrthio gwerth tua £200 i £300. Dywedodd fod llawer o gadeiriau gwrthio, yn enwedig, cadeiriau gwrthio 'pob tir', yn costio llawer mwy na hyn. Teimlai y gall yr amod hwn, yn ogystal â'r cyfyngiad, fod yn annheg ar warchodwyr plant oherwydd, yn sgil oedran amrywiol y plant sydd yn eu gofal, efallai na fyddant wedi bod angen eitemau o'r fath am flynyddoedd cyn i'r angen ddod i'r amlwg.

11.8. Rhannu arfer gorau a heriau

Er mai pwynt bach ydyw, y pwynt olaf a wnaed gan ychydig o awdurdodau lleol (sydd heb eu crybwyll eisoes yn yr adroddiad hwn) oedd y gallai fod gwerth cynnal cyfarfodydd rhwydwaith neu fforymau i rannu dysg a heriau, yn enwedig mewn perthynas ag ymdrin â hawliadau am eitemau grant bach, neu i ddeall sut mae awdurdodau eraill wedi defnyddio'r cyllid grant, yn enwedig ochr yn ochr â ffrydiau cyllido eraill.

11.9. Cymorth gyda reffeniw

Yn yr un modd, pwynt arall sydd heb ei godi eto yn yr adroddiad hwn, oedd bod rhai awdurdodau lleol a darparwyr wedi nodi, er bod cyllid cyfalaf wedi cefnogi gwelliannau i gyfleusterau ac adnoddau, efallai y bydd angen cynyddol am gymorth seiliedig ar reffeniw yn y sector. Tynnwyd sylw at y ffaith bod llawer o leoliadau eisoes wedi buddsoddi mewn offer a seilwaith, ond yn parhau i wynebu pwysau ariannol parhaus, gan gynnwys costau staffio a rhent.

"Mae'n rhaid i mi ddweud ein bod ni'n eistedd ar y paneli hyn fel corff cynrychiadol, a phob tro rydym ni'n trafod nad oes angen grantiau cyfalaf ar leoliadau fel y cyfryw,

mae angen grant refeniw arnynt i dalu rhent, talu cyflogau, maen nhw wedi prynu pob math posibl o adnoddau erbyn hyn. Os yw'r un math o gyllid ar gael i fynd tuag at refeniw, bydd yn gwneud byd o wahaniaeth.”

12. Astudiaethau achos

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn tynnu ar gyfweiliadau â darparwyr i ddangos rhai o effeithiau cadarnhaol a straeon y Rhaglen Gyfalaf, a rhai o'r straeon ynghylch yr heriau a brofwyd wrth gael mynediad at gyllid a defnyddio cyllid.

12.1. Profiadau cymysg gwarchodwr plant

Cafodd y gwarchodwr plant hwn rai profiadau cadarnhaol o'r Rhaglen Gyfalaf. Cafodd gyllid i osod porth car, gan greu ardal awyr agored wedi'i gorchuddio i blant allu chwarae ym mhob tywydd. Roedd hyn yn galluogi gwell mynediad at chwarae yn yr awyr agored, gan gefnogi lles y plant yn ei gofal.

Fodd bynnag, mae hi hefyd wedi cael heriau wrth geisio cyllid. Dywedodd fod rheolau 'atgyweirio neu ddisodli' a bennwyd gan ei hawdurdod lleol wedi cyfyngu ar ei gallu i brynu cadair wthio 'pob tir', gan nad oedd hi eisoes yn berchen ar eitem o'r fath. Yn yr un modd, roedd yna gyfyngiadau o tua £200 i £300 ar gadeiriau gwrthio, a nododd y gall y cadeiriau gwrthio hyn gostio llawer mwy na'r cyfyngiad hwnnw. Cafodd ei hawliad am drowsus a chotiau gwrthddwr i'r plant ei wrthod, gyda'i hawdurdod lleol yn nodi nad oedd yr eitemau hyn o fewn cwmpas y grant. Mae ei gofal yn canolbwyntio'n fawr ar ddysgu yn yr awyr agored, ond oherwydd na allai gael yr eitemau hyn, mae ei gallu i fynd â phlant allan i chwarae wedi'i gyfyngu.

"Mae'r cwricwlwm wedi'i seilio'n helaeth ar fod yn yr awyr agored... Mae gen i randir, felly rydym ni'n trio mynd yno, ac i'r traeth, ffermydd, ac ati. Ond gall fod yn anodd cyrraedd y rhain a mynd o'u cwmpas gyda chadeiriau gwrthio arferol a llond llaw o blant." (Darparwr, derbynnydd grant bach, ac aflwyddiannus gyda rhai grantiau)

Roedd hi hefyd eisiau gosod toiled ar y llawr gwaelod. Fel gwarchodwr plant, pryd bynnag y mae plentyn angen mynd i'r toiled, mae'n rhaid iddi fynd â nhw i gyd i fyny'r grisiau (gan sicrhau nad ydyn nhw'n cael eu gadael heb oruchwyliaeth), ac mae hi'n teimlo nad yw hynny'n ymarferol, yn enwedig wrth geisio helpu plant iau i ddefnyddio'r toiled. Mae ganddi doiled gwersylla ar y llawr gwaelod a sinc gwersylla fel datrysiad dros dro, gyda llen i gael rhywfaint o breifatrwydd, yn yr ystafell chwarae. Fodd bynnag, dywedodd nad yw hwn yn ddatrysiad hirdymor, a hoffai gynnig gwell preifatrwydd ac urddas i blant hyn yn ei gofal. Fodd bynnag, gwrthodwyd ei chais am doiled ar y llawr gwaelod, gan yr ystyriwyd ei fod yn fwy o fudd iddi hi'n bersonol, yn hytrach nag at ddibenion ei busnes.

"Dim ond toiled i fyny'r grisiau sydd gennyf...os ydy un plentyn eisiau mynd, mae'n rhaid i ni i gyd fynd i fyny'r grisiau oherwydd allwch chi ddim eu gadael heb oruchwyliaeth. Erbyn i chi eu cael i fyny yno, mae damweiniau wedi digwydd, dydyn nhw ddim yn gallu aros mor hir â hynny. Ar hyn o bryd mae gen i doiled gwersylla yn yr ystafell chwarae a llen o'i gwmpas, sy'n gweithio, ond nid yw'n ateb delfrydol. Ac i'r plant hyn, maen nhw eisiau ychydig o urddas a phreifatrwydd... byddai toiled ar y llawr gwaelod yn gwneud byd o wahaniaeth o ddydd i ddydd i mi a'r plant." (Darparwr, derbynnydd grant bach, ac aflwyddiannus gyda rhai grantiau)

Ar y cyfan, mynegodd werthfawrogiad am y cyllid yr oedd wedi'i dderbyn. Fodd bynnag, dywedodd y gall y meini prawf presennol gyfyngu ar effeithiolrwydd y rhaglen i ddiwallu anghenion gwarchodwyr plant. Awgrymodd y gallai mwy o hyblygrwydd a mwy o ystyriaeth o amgylchiadau unigol, yn hytrach na'r hyn a ystyriodd yn rheolau cyffredinol, wella hygyrchedd ac effaith i ddarparwyr llai.

12.2. Cyllid cyfalaf mawr i gefnogi ystod o flaenoriaethau

Cyn derbyn cyllid mawr, roedd y lleoliad cyfrwng Cymraeg hwn yn gweithredu o leoliad bach cymunedol, ac roedd yn rhaid iddo bacio ei offer bob dydd. Roedd y lleoliad hefyd yn wynebu rhent uwch, gyda hyn yn cynyddu i lefel nad oedd bellach yn gynaliadwy. Ar yr un pryd, dim ond oriau agor cyfyngedig y gallent gynnig o'r lleoliad hwnnw, sy'n golygu mai dim ond o ganol y bore i ganol y prynhawn y gallai'r lleoliad weithredu. O ganlyniad, nid oedd yn gallu diwallu anghenion rhieni sy'n gweithio, ac roedd llawer o rieni a gysylltodd â nhw, gan gynnwys y rhai yn gofyn am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn benodol, yn cael eu gorfodi i fynd i leoedd eraill, yn aml i ofal plant cyfrwng Saesneg.

Mewn ymateb i'r heriau hyn, gweithiodd y lleoliad yn agos â'r awdurdod lleol i ddatblygu achos cyfiawnhad busnes. Roedd yr awdurdod lleol, ochr yn ochr â'r sefydliad darparwr, wedi nodi angen clir am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Cyfrannodd y lleoliad dystiolaeth i gefnogi'r cais, gan gynnwys data ar alw, adborth gan rieni, gan gynnwys gan y rhai a edrychodd at leoliadau eraill oherwydd yr oriau gweithredu cyfyngedig.

Yn dilyn achos cyfiawnhad busnes llwyddiannus, symudodd y lleoliad i gyfleuster pwrpasol ar safle ysgol leol. Drwy symud, galluogwyd ehangu'r capasiti a'r cynnig gwasanaeth. Ymestynnwyd oriau agor i ddarpariaeth diwrnod llawn, gan gynnwys clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol. Roedd y lleoliad hefyd yn gallu lleihau ffioedd ychydig. Ers symud, mae'r lleoliad hefyd wedi cyrraedd capasiti llawn.

Mae'r lleoliad newydd yn cefnogi nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae wedi ehangu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn ardal lle roedd y galw wedi bod yn uwch na'r cyflenwad; mae wedi cyd-leoli ar safle ysgol, a bydd y ddau ohonynt yn helpu i gefnogi pontio llyfnach i'r ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae'r lleoliad hefyd yn y broses o ddod yn ddarparwr Dechrau'n Deg, fel rhan o'u cytundeb ar gyfer y safle newydd, ac mae hefyd yn darparu'r Cynnig Gofal Plant.

Mae'r cyfleusterau gwell hefyd yn gwella'r hygyrchedd i blant ag anghenion ychwanegol, gydag ardaloedd tawel a synhwyraidd ar gael. Mae darpariaeth chwarae awyr agored wedi'i wella, ac mae cael gwared ar yr angen i gadw dodrefn wedi gwneud chwarae yn haws ac yn fwy diddorol.

“Rydym ni'n dilyn chwarae dan arweiniad plant. Felly o'r blaen pan oedden ni'n adeiladu pethau, roedd yn rhaid i ni ddweud wrthyn nhw i'w cadw. Ond nawr mae gennym arwyddion yn dweud, 'peidiwch â chyffwrdd, gwaith adeiladu yn mynd rhagddo', fel y gallant ddychwelyd at eu gweithgaredd y diwrnod wedyn. Felly, i un bachgen bach, mae ei fam yn feddyg yn yr ysbyty lleol. Roedd yn adeiladu'r ysbyty

lle mae ei fam yn gweithio. Daeth i glwb ar ôl ysgol neithiwr ac mae'n dal i fod yno ar ei gyfer heddiw pan ddaw i mewn, i barhau i'w adeiladu." (Darparwr, derbynnydd grant mawr)

Adroddodd y lleoliad fanteision ehangach hefyd. Mae bellach wedi'i leoli yng nghanol ei gymuned, gan gynnwys bod yn agosach at siopau, gan wneud gweithgareddau fel coginio yn haws i'w cynnal.

Mae cyfleusterau gwell, gan gynnwys ardaloedd newid a thoiledau, wedi gwneud gweithrediadau o ddydd i ddydd yn haws i staff ac yn fwy cyfforddus i blant. Mae'r lleoliad hefyd bellach yn denu plant o ddarparwyr eraill nad ydynt yn gallu cynnig gofal cofleidiol.

Mae adborth gan rieni wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda'r lleoliad newydd wedi'i ddisgrifio yn "anhygoel". Roedd y darparwr yn canmol sut roedd yr awdurdod lleol yn gweithio gyda nhw drwy gydol y broses, gan gynnwys wrth ddrafftio'r achos cyfiawnhad busnes. Nodwyd bod ei unigolyn cyswllt yn yr awdurdod lleol "bob amser ar ben arall y ffôn" os oedd ei angen.

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut all buddsoddiad cyfalaf drawsnewid lleoliadau, gan eu galluogi i wella ansawdd, bodloni'r galw lleol yn well, a chefnogi ystod eang o flaenoriaethau'r llywodraeth.

12.3. Gwella cyfleoedd chwarae drwy grantiau bach

Mae'r grŵp chwarae hwn yn elusen ac mae wedi bod yn gweithredu ers nifer o flynyddoedd gyda chyllid cyfyngedig. Cyn derbyn cyllid cyfalaf grant bach, roedd gan y lleoliad ddodrefn ac offer a oedd yn "hen ac wedi gwisgo". Fel elusen, roedden nhw'n dibynnu'n helaeth ar godi arian i wneud gwelliannau, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid oeddent yn gallu gwella a diweddarau'r amgylchedd i'r plant yn sylweddol.

Disgrifiwyd cyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf fel rhywbeth "hollbwysig" gan y darparwr, gan ei alluogi i wneud gwelliannau na fyddai fel arall wedi bod yn bosibl. Roedd cyllid yn caniatáu i'r lleoliad fuddsoddi mewn offer ac adnoddau o ansawdd uchel, gan wella'r amgylchedd ffisegol cyffredinol, ond hefyd yr offer chwarae sydd ar gael i blant. Nododd staff fod y trawsnewidiad yn sylweddol, gyda'r lleoliad bellach wedi'i weddnewid i raddau helaeth o'i gymharu â'i edrychiad cyn derbyn cyllid cyfalaf.

Cymerodd y lleoliad agwedd raddol at wella, gan nodi pa agweddau ar eu hamgylchedd y gallent eu gwella, fesul un. Yn gyntaf, fe wnaethant ganolbwyntio ar ddodrefn, yna dilynwyd eu cais llwyddiannus cychwynnol i wneud cais am gyllid tuag at offer chwarae, ac yn ddiweddarach, canolbwyntio ar eu hardal awyr agored. Roedd ganddynt ardal awyr agored, fodd bynnag, nid oedd llawer o offer chwarae a dim ond iard goncrit ydoedd yn y bôn. Mae'r gofod awyr agored bellach yn ardal chwarae sydd ag adnoddau da, ac sydd â ffensys, cyfarpar storio, ac amrywiaeth o offer chwarae a dysgu fel cegin fwd, wal ddŵr, ardal dyfu, a mannau chwarae rôl.

Cafodd y broses ar gyfer nodi blaenoriaethau ei llywio gan asesiadau ECERS (Graddfa Graddio Amgylchedd Plentynod Cynnar), ochr yn ochr ag adborth gan y pwyllgor sy'n ymwneud â rhedeg yr elusen, i nodi bylchau yn y ddarpariaeth a'r meysydd i'w datblygu.

Er bod y broses ymgeisio gychwynnol wedi'i disgrifio'n gymhleth, yn enwedig y gofyniad i gael sawl dyfynbris pan oedd y lleoliad yn gwneud cais am gyllid ar gyfer nifer o eitemau, roedd y darparwr yn teimlo bod y broses wedi'i symleiddio gan ei awdurdod lleol, yn dilyn blwyddyn gychwynnol y cyllid.

Mae effaith y cyllid wedi bod yn sylweddol. Dywedodd y lleoliad fod yna welliannau sylweddol i gyfleoedd chwarae i blant, gyda'u plant yn elwa o amgylchedd mwy ysgogol. Mae'r gwelliannau hefyd wedi cefnogi cynhwysiant. Mae gan y lleoliad blant ag ADY ac mae wedi prynu cadeiriau uchel hygyrch, ac yn fwy eang yn ceisio dewis offer sydd wedi'i gynllunio i fod yn ddefnyddiol ac yn gynhwysol i bob plentyn.

Mae'r cyllid hefyd wedi cyfrannu at y galw cynyddol am y lleoliad. Ers derbyn y cyllid, mae'r cylch chwarae wedi cyrraedd ei lawn gapasiti ac wedi denu plant o ddalgylch ehangach nag o'r blaen. Disgrifiwyd hyn fel canlyniad annisgwyl ond cadarnhaol.

Roedd y lleoliad hefyd yn tynnu sylw at effeithiau cadarnhaol ar staff. Dywedodd staff fod mwy o gymhelliant a balchder yn eu gwaith, wedi'i gefnogi gan fynediad at amgylchedd o ansawdd uchel, a bod rhieni hefyd wedi creu argraff ar y lleoliad.

Dywedodd y darparwr, heb gyllid cyfalaf, bod y lleoliad yn teimlo y byddai wedi cael trafferth bodloni disgwyliadau rheoleiddiol AGC, yn enwedig o ystyried y cyfnod ariannol anodd y mae'r sector wedi bod yn ei wynebu yn ddiweddar.

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut y gall hyd yn oed grantiau cyfalaf bach gael effaith drawsnewidiol, yn enwedig ar gyfer gwella cyfleoedd chwarae a hygyrchedd.

12.4. Ehangu capasiti drwy gyllid mawr

Cyn derbyn cyllid mawr, roedd y feithrinfa wedi'i chofrestru i dderbyn plant 12 mis oed a hŷn. Nododd yr awdurdod lleol yr angen am fwy o ddarpariaeth yn yr ardal, a chysylltodd â'r feithrinfa. Rhannodd y feithrinfa ei rhwystredigaethau, ei bod yn colli ymrestriadau posibl gan deuluoedd a oedd angen gofal plant cyn i'w plentyn gyrraedd eu pen-blwydd cyntaf.

Yr awdurdod lleol a arweiniodd y cais. Defnyddiwyd cyllid i ddatblygu estyniad pwrpasol ar gyfer uned babanod. Er bod y broses wedi cymryd bron i dair blynedd oherwydd newidiadau dylunio a chostau cynyddol, dywedwyd bod y cyfathrebu rhwng y lleoliad a'r awdurdod lleol wedi bod yn gryf drwy gydol y cyfnod. Mae'r cyfleuster newydd wedi cynyddu'r capasiti yn gyffredinol, o 28 i 42 o leoedd, ond yn hollbwysig, gall y lleoliad bellach ddarparu ar gyfer plant sy'n iau na 12 mis oed.

Mae'r lleoliad bellach yn gallu darparu ar gyfer plant iau ac maent hefyd wedi cynyddu nifer y lleoedd Dechrau'n Deg sydd ar gael o ganlyniad i'r cyllid. Mae hefyd wedi galluogi mwy o

barhad i deuluoedd, gan ganiatáu i frodyr a chwiorydd fynychu'r un lleoliad o oedran ieuengach.

Yn ogystal ag ehangu capasiti, mae'r cyllid wedi gwella ansawdd y ddarpariaeth. Yn gyntaf, mae'r gwaith yn gyffredinol wedi gwella'r amgylchedd chwarae i blant drwy gyfleusterau mwy newydd. Yn ail, mae gan y lleoliad bellach ystafell staff bwrpasol, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar les staff, gan ganiatáu iddynt gymryd seibiannau priodol pan fo angen.

Ochr yn ochr â'r grant mawr, gwnaeth y lleoliad gais llwyddiannus am grantiau bach i gefnogi gwelliannau wedi'u targedu. Roedd y rhain yn cynnwys ychwanegu ardal storio a sinc newydd. Disgrifiwyd y broses ymgeisio am grantiau bach yn syml i'r feithrinfa.

Mae cyllid wedi galluogi'r lleoliad hwn i ehangu'r ddarpariaeth, gan gynnwys ehangu capasiti i helpu i ehangu Dechrau'n Deg. Dywedodd y lleoliad ei fod bellach yn gallu diwallu anghenion y teuluoedd lleol sydd angen dychwelyd i'r gwaith cyn i'w plentyn droi'n flwydd oed.

13. Casgliad

Yn gyffredinol, mae'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar 2022 i 2025 wedi'i hystyried yn eang gan awdurdodau lleol a darparwyr fel ymyrraeth lwyddiannus ac effeithiol. Gwerthfawrogyd y cyllid yn arbennig yn ystod cyfnod o anawsterau ariannol, pan fyddai gwneud gwaith cyfalaf drwy reffeniw presennol wedi bod yn anodd iawn, neu na fyddai wedi bod yn bosibl o gwbl i lawer.

Mynegodd awdurdodau lleol a darparwyr gefnogaeth gref tuag at y Rhaglen yn gyffredinol, gan dynnu sylw at y gwahaniaeth cadarnhaol y mae wedi'i wneud i ansawdd y ddarpariaeth, cyflwr y lleoliadau, a'r profiad i blant. Mae'r Rhaglen hefyd wedi cefnogi'n glir blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ehangu Dechrau'n Deg, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a chyd-leoli.

Ymddengys mai cryfder allweddol y Rhaglen yw sut oedd y grant mawr a bach yn ategu ei gilydd. Roedd grantiau mawr yn cefnogi datblygiadau strategol, tymor hwy, gan gynnwys adeiladau newydd, cyd-leoli ar safleoedd ysgolion, ac ehangu'r ddarpariaeth ar safleoedd presennol. I'r gwrthwyneb, roedd grantiau bach yn galluogi gwelliannau mwy uniongyrchol, eang ar draws nifer fwy o leoliadau, yn enwedig mewn perthynas ag amgylcheddau chwarae, darpariaeth awyr agored, a chynhwysiant a hygyrchedd.

Fodd bynnag, er bod y Rhaglen wedi cefnogi gydag ehangu rhai lleoliadau neu greu lleoliadau newydd, mae hyn wedi'i wrthbwysio gan leoliadau yn cau mewn mannau eraill yn y sector gofal plant a chwarae. Yn ogystal, nid yw effaith iawn llawer o'r prosiectau mawr wedi'i gwireddu'n llawn eto, er mwyn caniatáu dealltwriaeth ddyfnach o effaith cyllid mawr.

Cafodd y Rhaglen yn gyffredinol ei ystyried yn hygyrch. Disgrifiwyd prosesau ymgeisio yn gyffredinol fel rhai y gellir eu rheoli, ac roedd lefelau llwyddiant yn uchel ar draws y ddwy ffrwd cyllid. Fodd bynnag, codwyd problemau gyda hygyrchedd, yn enwedig mewn perthynas â chysondeb. Cafwyd amrywiaeth yn y ffordd yr ymatebodd awdurdodau lleol i grantiau bach, gyda rhai anghysondebau yn yr eitemau sy'n cael eu hariannu, neu'r symiau sy'n cael eu hariannu ar gyfer eitemau penodol, a achosodd rywfaint o rwystredigaeth ymhlith darparwyr. Roedd llawer o'r heriau yn canolbwyntio ar warchodwyr plant, yn enwedig eu gallu i hawlio cyllid i wella eu lleoliad (h.y. lle ystyriwyd bod ceisiadau am gyllid o fudd iddynt yn bersonol, yn ogystal â'u busnes).

Unwaith eto, er bod yna ganfyddiad cadarnhaol o'r Rhaglen yn gyffredinol, wynebwyd heriau o ran cyflawni. Ar gyfer grantiau mawr, roedd y rhain yn cynnwys tensiynau yn ymwneud ag amserlenni a chostau 'mewn perygl' ymlaen llaw. Ar gyfer grantiau bach, roedd yr heriau yn cynnwys anhyblygrwydd canfyddedig o feini prawf, megis meini prawf 'atgyweirio neu ddisodli', anghysondebau canfyddedig wrth wneud penderfyniadau rhwng awdurdodau lleol, yn ogystal â risgiau ariannol sy'n gysylltiedig ag amodau grantiau, yn enwedig ar adeg pan ddisgrifiodd darparwyr bod eu dyfodol tymor byr hyd yn oed yn ansicr oherwydd y pwysau ariannol y mae'r sector yn eu hwynebu, ac yn dal i wynebu. Roedd ymholiadau hefyd yn ymwneud ag ecwiti, gyda sefydliadau mwy yn gallu derbyn cyllid ar draws y gwahanol leoliadau maen nhw'n eu rheoli.

I gloi, darparodd y Rhaglen Gyfalaf fuddsoddiad hanfodol i'r sector gofal plant, gan gyflawni gwelliannau gwerthfawr, o ran blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ond hefyd blaenoriaethau lleoliadau unigol, yn enwedig drwy'r grantiau bach. Fodd bynnag, mae'r meysydd i'w hystyried yn y dyfodol a amlinellir isod yn darparu gwybodaeth ar gyfer sut y gellid cryfhau rhaglenni grant cyfalaf yn y dyfodol ar gyfer y sector gofal plant a'r blynyddoedd cynnar.

13.1. Meysydd i'w hystyried yn y dyfodol

Yn seiliedig ar adborth gan awdurdodau lleol a darparwyr, mae'r meysydd canlynol i'w hystyried yn y dyfodol wedi'u nodi mewn perthynas â rhaglenni grant cyfalaf yn y dyfodol ar gyfer y sector gofal plant a'r blynyddoedd cynnar. Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ystyried:

- dichonoldeb ymestyn hyd unrhyw raglen y tu hwnt i dair blynedd, neu alluogi prosesau ymgeisio cynharach, er mwyn gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael ar gyfer cyflawni prosiectau
- darparu mwy o eglurder ar ddechrau'r broses ymgeisio o ran disgwyliadau ar gyfer achosion busnes, er mwyn lleihau dyblygu a baich gweinyddol i awdurdodau lleol drwy ymholiadau 'annisgwyl'
- adolygu'r dull gweithredu o gostau 'mewn perygl' ymlaen llaw, gan gynnwys cyflwyno cam 'cymeradwyo mewn egwyddor' posibl i ddarparu mwy o sicrwydd i awdurdodau lleol cyn ysgwyddo costau sylweddol
- sut y gellir gwella ymwybyddiaeth o dempledi ar gyfer rheoli amrywiadau i sicrhau dull mwy safonol ar draws awdurdodau lleol
- addasu prosesau ymgeisio i ddarparu ar gyfer prosiectau adnewyddu aml-safle yn well, er enghraifft drwy ddefnyddio prif gais wedi'i gefnogi gan ffurflenni cais atodol neu atodiadau ar gyfer safleoedd unigol
- sut y gall rhaglenni yn y dyfodol gefnogi darparwyr llai, yn enwedig gwarchodwyr plant, yn well gan gynnwys darparu canllawiau cliriach ar wariant cymwys
- adolygu meini prawf ar gyfer grantiau bach, megis gofynion 'atgyweirio neu ddisodli' a chyfyngiadau ar eitemau, i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion darparwyr, yn enwedig darparwyr newydd neu lai, a allai fod angen mwy o offer
- hwyluso cyfleoedd i awdurdodau lleol rannu arferion gorau a heriau, er enghraifft drwy gyfarfodydd rhwydwaith neu fforymau
- rôl bosibl cyllid refeniw ochr yn ochr â buddsoddiad cyfalaf, gan gydnabod pwysau ariannol parhaus yn y sector.

Mewn perthynas â'n hargymhellion ein hunain, mae'n bwysig nodi bod cynnal yr ymchwil desg ar newidiadau capasiti yn heriol. Fel yr amlinellir yn y bennod honno (3), efallai y bydd y nifer a ragwelir o leoedd sy'n deillio o gyllid wedi cael eu diweddarau dros amser drwy ddogfennau atodol; efallai na fydd niferoedd lleoedd terfynol bob amser yn gywir, ac mewn rhai achosion, roedd manylion o fewn yr achosion cyfiawnhad busnes yn aneglur.

Yn ogystal â'r meysydd gwella a awgrymwyd gan gyfranogwyr, credwn y byddai'n fuddiol i swyddogion o fewn Llywodraeth Cymru, er enghraifft, timau ar draws Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a'r Tîm Grantiau Cyfalaf, drafod dichonoldeb datblygu system fonitro a gwerthuso fwy cyson. Byddai system o'r fath yn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chasglu'n gywir ac yn systematig, gan alluogi dealltwriaeth gliriach o'r effaith y gall rowndiau cyllido yn y dyfodol ei chael. Byddai hyn yn debygol o gynnwys llawer o'r data sydd eisoes wedi'i gynnwys yn yr achosion cyfiawnhad busnes, ond gallai hefyd gynnwys, er enghraifft, rhif cofrestru AGC, fel y gellir olrhain newidiadau capasiti cyn ac ar ôl derbyn cyllid.